

# Cronfeydd UE:
# Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020

## Crynodeb i'r Cyhoedd

Rhif CCI: 2014TC16RFCB048

# CYNNWYS

**1. STRATEGAETH ... 3**

**2. CRYNODEBAU CYLLID, CANLYNIADAU, CYNNYRCH A FFRAMWAITH PERFFORMIAD ... 10**

**3. THEMÂU TRAWSBYNCIOL ... 18**

**4. ECHEL BLAENORIAETH 1: ARLOESI TRAWSFFINIOL ... 25**

Amcan Penodol 1 ... 26

Camau gweithredu i gael eu cefnogi ... 29

Egwyddorion Arweiniol ... 33

**5. ECHEL BLAENORIAETH 2: ADDASU I'R NEWID YN YR HINSAWDD ... 37**

Amcan Penodol 2 ... 39

Camau gweithredu i gael eu cefnogi ... 39

Egwyddorion Arweiniol ... 42

**6. ECHEL BLAENORIAETH 3: ADNODDAU A THREFTADAETH DDIWYLLIANNOL A NATURIOL ... 45**

Amcan Penodol 3 ... 48

Camau gweithredu i gael eu cefnogi ... 50

Egwyddorion Arweiniol ... 52

**7. ECHEL BLAENORIAETH 4: CYMORTH TECHNEGOL ... 56**

Amcan Penodol 4 ... 56

**8. DULL DATBLYGU TIRIOGAETHOL INTEGREDIG ... 60**

**9. GWEITHREDU DARPARIAETHAU ... 62**


**10. CYDGYSYLLTIAD Â RHAGLENNI ERAILL ... 75**

**11. BAICH GWEINYDDOL I'R BUDDIOLWYR ... 82**

**12. RHESTR O ACRONYMAU CYFFREDIN ... 84**

# 1. STRATEGAETH

1.1 Mae’r adran hon yn diffinio strategaeth Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020 (Rhaglen IC). Wrth ddatblygu'r strategaeth, cynhaliwyd dadansoddiad economaidd-gymdeithasol llawn i nodi anghenion, heriau a chyfleoedd ar draws ardal y Rhaglen. Bu hwn yn destun rhag-werthusiad ac mae’n cynrychioli’r sylfaen dystiolaeth gadarn yr adeiladwyd y strategaeth hon arni.




1.2 Mae poblogaeth ardal y Rhaglen oddeutu 4 miliwn o bobl ar draws un ar ddeg o ranbarthau NUTS III. Yn Iwerddon, mae ardal y Rhaglen yn cwmpasu siroedd Carlow, Corc, Dinas Dulyn, Dun Laoghaire/Rathdown, Fingal, Kerry, Kildare, Kilkenny, Meath, De Dulyn, Tipperary, Waterford, Wexford a Wicklow. Yng Nghymru, mae'n cwmpasu Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir y Fflint, Ynys Môn, Sir Benfro, Abertawe a Wrecsam. Mae dros ddau draean (70%) o gyfanswm y boblogaeth ar gyfer ardal y Rhaglen yn seiliedig yn Iwerddon gyda 30% yng Nghymru. Mae'r gwahaniaeth yn y boblogaeth i raddau helaeth oherwydd bod rhanbarth Dulyn wedi cael ei gynnwys.

1.3 Mae’r rhanbarth trawsffiniol wedi'i ganoli ar y prif lwybrau môr rhwng Iwerddon a Chymru a'r prif fannau mynediad ar gyfer nwyddau Gwyddelig i farchnadoedd Prydain ac Ewrop ac i'r gwrthwyneb, h.y. y coridor canol o

Ddulyn/Dun Laoghaire i Gaergybi a'r coridor môr deheuol rhwng Rosslare / New Ross / Waterford ac Abergwaun / Doc Penfro / Aberdaugleddau. Mae'r porthladdoedd o bwys strategol ac maent yn ffurfio cysylltiadau hanfodol ar draws ffin y môr. Cysylltir Iwerddon a Chymru hefyd gan lwybr awyr rhwng Caerdydd a Dulyn sy'n darparu mynediad pellach i ardal y Rhaglen.

1.4 Adwaenir y rhan fwyaf o ardal ofodol y Rhaglen o fewn Cymru fel rhanbarth llai datblygedig gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r ddaearyddiaeth, y cyfansoddiad cymdeithasol ac economaidd a dirwasgiad 2009 yn cyfuno i greu sefyllfa heriol o ran ysgogi twf economaidd. Fel y cyfryw, mae'n gymwys i dderbyn cymorth ychwanegol o dan Raglen Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIF) yr Undeb Ewropeaidd i hyrwyddo cydgyfeirio economaidd â rhanbarthau mwy ffyniannus yr UE. Fodd bynnag, nid yw cronfeydd strwythurol yn ddigon i weddnewid perfformiad y rhanbarth.

1.5 Mae economi Iwerddon wedi wynebu heriau eithafol oherwydd y dirwasgiad a'r argyfwng cyllidol a gychwynnodd yn 2008, mewn gwrthgyferbyniad trawiadol â thwf y blynyddoedd blaenorol. Parodd difrifoldeb yr argyfwng hwn i Lywodraeth Iwerddon geisio cymorth ariannol gwerth €85 biliwn yn 2010 oddi wrth raglen yr UE/IMF (y Gronfa Ariannol Ryngwladol). Mae Llywodraeth Iwerddon wedi gweithio'n agos gyda'r IMF a'r Comisiwn Ewropeaidd i ailaddasu ac adfer sefydlogrwydd economaidd. Adlewyrchir y cynnydd sylweddol a wnaed yn y Rhaglen UE/IMF a gwblhawyd yn llwyddiannus ym mis Rhagfyr 2013.

1.6 Mae strategaeth Rhaglen Iwerddon Cymru yn seiliedig ar synthesis o'r fframweithiau Ewropeaidd a Chenedlaethol, gwersi a ddysgwyd oddi wrth Raglen 2007-2013 ac anghenion a heriau ardal y Rhaglen.

## Y Fframwaith Ewropeaidd

1.7 Mae yna nifer o strategaethau a pholisïau sy'n egluro'r fframwaith Ewropeaidd ar gyfer cyflawni twf deallus, cynaliadwy a chynhwysol. Mae'r cyd-ddadansoddiad economaidd-gymdeithasol yn amlinellu mewn mwy o fanylder beth yw'r strategaethau a'r polisïau hyn a sut y maent yn berthnasol i Raglen Iwerddon Cymru. Y strategaethau a'r polisïau allweddol yw:

- Strategaeth Ewrop 2020;
- Agenda Diriogaethol 2020;
- Y Fframwaith Strategol Cyffredin;
- Horizon 2020;

- Papur polisi'r Comisiwn Ewropeaidd ar 'Bolisi rhanbarthol yn cyfrannu at dwf cynaliadwy yn Ewrop 2020' (a gyhoeddwyd yn 2010);
- Strategaeth yr UE ar ymaddasu i newid yn yr hinsawdd (a fabwysiadwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Ebrill 2013);
- Y ‘Strategaeth Forwrol ar gyfer Ardal yr Iwerydd' (a fabwysiadwyd yn 2011) a’r 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Strategaeth Forwrol ar gyfer Ardal yr Iwerydd' dilynol (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2013);
- Blaenoriaethau penodol Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC) a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y Deyrnas Unedig ac Iwerddon yn eu papurau sefyllfa penodol i’w gwlad yn 2012 ar ddatblygu'r Cytundebau Partneriaeth a'r Rhaglenni ar gyfer y cyfnod 2014-2020.

## Y Fframwaith Cenedlaethol

1.8 Roedd pennod Cymru o Gytundeb Partneriaeth y DU a Chytundeb Partneriaeth Iwerddon yn egluro’r fframwaith cenedlaethol gyda golwg ar y blaenoriaethau twf deallus, cynaliadwy a chynhwysol a'r heriau a nodwyd ar gyfer rhaglenni rhanbarthol Cymru ac Iwerddon. Mae'r cyd-ddadansoddiad economaidd-gymdeithasol yn ehangu ymhellach ar y meysydd hynny sydd wedi'u nodi fel heriau trawsffiniol cyffredin penodol. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu arloesedd, ymaddasu i newid yn yr hinsawdd a defnyddio adnoddau diwylliannol a naturiol a threftadaeth mewn ffordd gynaliadwy. Ceir nifer o ddogfennau ar lefel genedlaethol sy'n uniongyrchol berthnasol i Raglen Iwerddon Cymru ac mae'r rhain yn cynnwys:

- ‘*Report of the Research Prioritisation Steering Group*’ (2012) Llywodraeth Iwerddon (2012);
- Strategaethau 'Gwyddoniaeth i Gymru' ac ''Arloesedd Cymru' Llywodraeth Cymru;
- *’National Climate Change Adaptation Framework*’ (2012) Llywodraeth Iwerddon;
- 'Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd' Llywodraeth Cymru;
- ‘*Delivering Our Green Potential*’ (2012) Llywodraeth Iwerddon (2012);
- Papur Gwyrdd 'Cynnal Cymru Fyw’ Llywodraeth Cymru
- ‘*Harnessing our Ocean Wealth: An Integrated Marine Plan for Ireland’ (2012)*' Llywodraeth Iwerddon;

- *'Evaluating the Value of the Economic Relationship between the UK and Ireland'* (Mehefin 2013*)* y DU a Llywodraeth Iwerddon;

1.9 Bydd Rhaglen Iwerddon Cymru yn ceisio alinio ei hun â'r polisïau cenedlaethol a sicrhau cydweddu'n strategol lle mae'r rhain yn croestorri â'r anghenion a'r heriau trawsffiniol a nodwyd. Datblygwyd y ddogfen hon mewn ymgynghoriad â chydweithwyr polisi yng Nghymru ac Iwerddon i sicrhau y cyflawnir hyn.

## Datganiad Gweledigaeth Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru

*1.10 'Darparu'r fframwaith i sefydliadau yn yr ardal drawsffiniol ymroi i gydweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a'r blaenoriaethau a rennir, sydd o ddiddordeb cyffredin ar ddwy ochr Môr Iwerddon a thrwy hynny gyfrannu ac ychwanegu gwerth i flaenoriaethau datblygu economaidd a chynaliadwy Iwerddon a Chymru.'*

Caiff hyn ei gyflawni drwy ddefnyddio'r doniau, y sgiliau, y profiadau a'r arbenigedd yn rhanbarth Môr Iwerddon.

## Heriau i Raglen Gydweithredu Iwerddon-Cymru

1.11 Fe wnaeth cyrff rheoli'r Rhaglen gwblhau cyd-ddadansoddiad economaidd-gymdeithasol a dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau) ar ardal y Rhaglen, a ddefnyddiwyd fel sail ar gyfer nodi anghenion a heriau cyffredin ardal y Rhaglen. Bydd y strategaeth ar gyfer Rhaglen Iwerddon Cymru yn canolbwyntio ar y meysydd hyn, ac, yn benodol, y rheiny lle y gall cydweithredu trawsffiniol gynnig y gwerth ychwanegol mwyaf:

- *Her 1* : Defnyddio potensial Môr Iwerddon
- *Her 2* : Gwella llif gwybodaeth
- *Her 3* : Gwella galluoedd busnesau bach a chanolig i arloesi
- *Her 4* : Gwendid yn wyneb effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd
- *Her 5* : Defnyddio treftadaeth ac adnoddau naturiol a diwylliannol i hybu twf economaidd
- *Her 6* : Cydlyniant Economaidd a Chymdeithasol

## Trosolwg ar strategaeth y Rhaglen

1.12 Y strategaeth gyffredinol ar gyfer Rhaglen Iwerddon Cymru fydd mynd i'r afael â heriau a blaenoriaethau a rennir sydd o ddiddordeb cyffredin i Iwerddon a Chymru. Bydd y Rhaglen yn cefnogi gweithgareddau sy'n ymdrin â set fwy penodol o weithgareddau thematig a all fynd rywfaint o’r ffordd i ddarparu atebion i'r heriau hyn a thrwy hynny gyflawni'r effaith fwyaf a gwir werth ychwanegol ac effaith drawsffiniol. Bydd y Rhaglen yn targedu amcanion economaidd mewn aliniad gyda'r pwyslais ar swyddi a thwf o fewn Rhaglenni ERDF. Bydd yn canolbwyntio mwy ar ddeilliannau a chanlyniadau, gan wneud y canlyniadau hyn yn fesuradwy a gweladwy a chynhyrchu mwy o effaith. Bydd y ffocws cryfach hwn yn gymorth i ddatblygu gweithrediadau o safon, cyflwyno negeseuon cliriach i randdeiliaid a gwella'r broses o ddethol gweithrediadau. Wrth ymdrechu i gwrdd â’r nod hon, mae’n rhaid rhoi’r sylw dyladwy i raddfa'r Rhaglen a chael disgwyliadau realistig ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni a beth y mae modd ei sicrhau ar lefel Rhaglen ac ar lefel gweithrediad o fewn y gyllideb sydd ar gael. I'r graddau hyn, gall y Rhaglen weithredu fel galluogwr ac arloeswr wrth chwilio am atebion i faterion sy'n wynebu'r rhanbarth trawsffiniol.

1.13 Mae'r Rhaglen hefyd yn rhoi'r cyfle i annog cynnal peilot a rhoi prawf ar weithgaredd sefydlu, fydd efallai â photensial i fwydo i raglenni rhanbarthol Cymru ac Iwerddon ac i raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC) eraill ar lefel trawswladol a rhyngranbarthol a mentrau ariannu eraill yr UE a rhai cenedlaethol, yn ogystal â sefydlu arferion gorau a gwybodaeth gyda photensial daearyddol ehangach. Bydd y Rhaglen hefyd yn ceisio ymdrin â'r anghydbwysedd daearyddol o ran lledaenu'r gweithrediadau ar draws ardal y Rhaglen lle mae rhai rhanbarthau ar hyn o bryd yn cymryd rhan lawnach nag eraill. Bydd y Rhaglen hefyd yn ystyried yr hyblygrwydd yn y Rheoliadau ar gyfer ymyriadau gan sefydliadau y tu allan i'r ardal ddaearyddol gerllaw er mwyn ymdrin â heriau penodol a lle y gall eu cyfranogiad ddarparu gwerth ychwanegol penodol i'r ardal drawsffiniol (er enghraifft, cysylltu ein dwy brifddinas, Dulyn a Chaerdydd).

1.14 Mae'r paragraffau canlynol yn cyflwyno trosolwg ar strategaeth y Rhaglen Iwerddon Cymru newydd. Cyn ymhelaethu ar y strategaeth, mae'n bwysig nodi na all y Rhaglen ymdrin â’r holl anghenion datblygu trawsffiniol penodol. Mae nifer o resymau am hyn: mae adnoddau a gallu ariannol y Rhaglen yn gyfyngedig; mae angen cynyddol i sicrhau canlyniadau mesuradwy; yr angen i gymryd i ystyriaeth y gwersi a ddysgwyd oddi wrth Raglen 2007-2013; ac er mwyn gweithredu’r Rhaglen yn llwyddiannus mae angen cefnogaeth genedlaethol.

1.15 O ganlyniad, mae strategaeth y Rhaglen yn gosod ffocws neilltuol ar dri Amcan Thematig (ATh) ac ni all fynd i'r afael â'r themâu hyn ond i raddau cyfyngedig:

- **ATh 1:** Cryfhau ymchwil, datblygiad technolegol ac arloesedd
- **ATh 5:** Hybu ymaddasiad i'r newid yn yr hinsawdd, atal a rheoli risgiau
- **ATh 6:** Amddiffyn yr amgylchedd a hybu effeithlonrwydd adnoddau.

1.16 Mae strategaeth Rhaglen Iwerddon Cymru yn ymdrin â set gydlynol a chyflenwol o dri Amcan Thematig (ATh), tair Blaenoriaeth Fuddsoddi (BF) a thri Amcan Penodol (AP)

1.17 Bydd y Rhaglen a'r tair Echel Blaenoriaeth (EB) a ddewiswyd yn adeiladu ar lwyddiant gweithgareddau yn Rhaglen 2007-2013 a blaenoriaethau Rhaglen 2007-13. Fodd bynnag, bydd gwahaniaeth yn ffocws y blaenoriaethau rhwng y ddwy Raglen. Bydd Môr Iwerddon yn ffocws mwy canolog i'r Rhaglen o gofio natur forwrol y ffin rhwng Iwerddon a Chymru a'r manteision sylweddol a all ddeillio o'r adnodd pwysig hwn. Bydd gan yr Echel Arloesedd (EB1, yn ymgorffori ATh1) ffocws cryfach ar fusnesau bach a chanolig (BBaChau) yng nghyd-destun blaenoriaethau cyffredin y strategaethau arbenigo craff; bydd echel y Newid yn yr Hinsawdd (EB2, yn ymgorffori ATh5) yn canolbwyntio'n benodol ar ymaddasu i newid yn yr hinsawdd ar Fôr Iwerddon ac yn y cymunedau arfordirol; bydd gan echel Defnyddio Treftadaeth ac Adnoddau Diwylliannol a Naturiol (EB3, yn ymgorffori ATh6) ffocws neilltuol ar Fôr Iwerddon, fel dull cyffredin o sicrhau twf economaidd drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr.

## Y Cyfiawnhad dros y dewis o Amcanion Thematig a Blaenoriaethau Buddsoddi

1.18 Dewiswyd yr Amcanion Thematig (ATh) a'r Blaenoriaethau Buddsoddi (BF) ar sail y canlynol:

- Y gwerth ychwanegol posibl o fabwysiadu dull trawsffiniol ar gyfer gweithredu camau o dan yr ATh penodol;
- Y dystiolaeth oedd yn deillio o'r cyd-ddadansoddiad economaidd-gymdeithasol a'r dadansoddiad SWOT ar gyfer ardal y Rhaglen;
- Y gwersi a ddysgwyd oddi wrth Raglen 2007-2013 sy'n cynnwys profiadau cyrff rheoli Rhaglen a phartneriaid gweithredu;

- Perthnasedd yr Amcanion Thematig i'r heriau allweddol a'r anghenion datblygu trawsffiniol pwysicaf a nodwyd o dan bob un o amcanion cyffredinol strategaeth UE2020 yn ardal y Rhaglen;
- Perthnasedd yr Amcanion Thematig i natur forwrol y ffin rhwng Iwerddon a Chymru;
- Capasiti ariannol y Rhaglen a'i photensial i gael effaith ar yr anghenion a'r heriau a nodwyd;
- Aliniad â blaenoriaethau strategol Llywodraethau Cymru ac Iwerddon.

1.19 Roedd dewis tair Blaenoriaeth ar gyfer y Rhaglen, un i bob ATh, yn cwmpasu twf deallus a chynaliadwy yn seiliedig ar ddadansoddiad o bob un o'r pwyntiau uchod a thrafodaethau rhwng Iwerddon a Chymru gan gynnwys gweithdai ar y cyd i randdeiliaid a chynnwys llif gwaith Cydweithrediad Tiriogaethol Ewrop Llywodraeth Cymru. Roedd pob un ohonynt yn cynnwys ystyried fframwaith yr UE a'r Fframwaith Cenedlaethol, y gwersi a ddysgwyd ac anghenion a heriau'r Rhaglen. Caiff twf cynhwysol ei weithredu fel elfen drawsbynciol o fewn yr holl flaenoriaethau buddsoddi (BF) a ddewisir a chaiff ei ystyried ymhellach hefyd wrth ddatblygu meini prawf dethol gweithrediadiadau'r Rhaglen. Mae dimensiwn y Twf Cynhwysol hefyd i'w weld fel Math o Gam Gweithredu o fewn amcan penodol, lle bynnag y bo'n berthnasol.


# 2 CRYNODEBAU CYLLID, CANLYNIADAU, CYNNYRCH A FFRAMWAITH PERFFORMIAD

## 2a Crynodeb o ddyraniadau ariannol fesul Echel Blaenoriaeth

## (mewn €)

| Echel Blaenoriaeth | Cefnogaeth yr Undeb | Cyfanswm arian cyfatebol | Arian Cyfatebol Cyhoeddus | Arian Cyfatebol Preifat | Cyfanswm y buddsoddiad | Cyfradd ymyrraeth (Uchafswm) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | 31,679,380 | 7,919,844 | 7,127,860 | 791,984 | 39,599,224 | 80% |
| **2** | 27,719,457 | 6,929,863 | 6,583,370 | 346,493 | 34,649,320 | 80% |
| **3** | 15,047,706 | 3,761,926 | 3,573,830 | 188,096 | 18,809,632 | 80% |
| **4** | 4,751,907 | 1,187,976 | 1,187,976 | 0 | 5,939,883 | 80% |
| **Cyfanswm** | **79,198,450** | **19,799,609** | **18,473,036** | **1,326,573** | **98,998,059** | **80%** |

## 2b Siart y dyraniadau ariannol fesul Echel Blaenoriaeth



## 2c Crynodeb o’r Canlyniadau a’r Cynnyrch fesul Amcan Penodol

| **(1) Arloesedd Trawsffiniol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan Penodol** | **Dangosyddion y Canlyniadau / Targedau** | **Cynnyrch** [*Dangosyddion Craidd y Comisiwn] | **Gwerth targed** |
| AP1 Cynyddu dwyster y cydweithrediadau trosglwyddo gwybodaeth sy'n cynnwys sefydliadau ymchwil a BBaChau yn unol â'r blaenoriaethau cyffredin yn y strategaethau arbenigo craff | Lefelau buddsoddiadau mewn ymchwil a datblygiad ac arloesi sy'n deillio o gydweithredu trawsffiniol mewn blaenoriaethau sy’n gyffredin fel y nodir mewn strategaethau arbenigo craff<br><br>Targed: I’w gadarnhau | Nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth* | 1200 |
| | | Nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth heb fod yn ariannol* | 1200 |
| | | Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogir* | 35 |
| | | Nifer y mentrau sy'n cydweithredu â sefydliadau ymchwil* | 70 |
| | | Buddsoddiad preifat yn cyfateb i gefnogaeth gyhoeddus mewn arloesedd neu brosiectau ymchwil a datblygiad* | €791,984 |
| | | Nifer y mentrau a gefnogwyd i gyflwyno cynhyrchion newydd i'r farchnad* | 30 |
| | | Nifer y mentrau a gefnogwyd i gyflwyno cynhyrchion newydd i'r cwmni* | 600 |
| | | Nifer y mentrau sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil trawsffiniol, trawswladol neu ryngranbarthol* | 50 |
| | | Nifer y sefydliadau ymchwil sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil trawsffiniol, trawswladol neu ryngranbarthol* | 45 |
| | | Nifer o rwydweithiau arloesi trawsffiniol newydd neu well | 6 |
| | | Nifer o brosiectau peilot a gwblhawyd | 3 |

| **(2) Ymaddasiad Môr Iwerddon a'r cymunedau arfordirol i'r newid yn yr hinsawdd** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan Penodol** | **Dangosyddion y Canlyniadau / Targedau** | **Cynnyrch** [*Dangosyddion Craidd y Comisiwn] | **Gwerth targed** |
| AP2 Cynyddu'r gallu a'r wybodaeth am ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd ar gyfer Môr Iwerddon a'r cymunedau arfordirol | Lefelau gwybodaeth am ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd ymhlith cymunedau a busnesau<br><br>Targed: I'w gadarnhau | Nifer y sefydliadau ymchwil sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil trawsffiniol, trawswladol neu ryngranbarthol* | 10 |
| | | Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd | 2 |
| | | Nifer y mentrau codi ymwybyddiaeth newydd yn targedu cymunedau arfordirol | 60 |
| | | Nifer y sefydliadau sy'n cydweithredu i wella'r amgylchedd forol ac arfordirol | 24 |
| | | | |
| **(3) Adnoddau a Threftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol** | | | |
| **Amcan Penodol** | **Dangosyddion y Canlyniadau / Targedau** | **Cynnyrch** [*Dangosyddion Craidd y Comisiwn] | **Gwerth targed** |
| AP3 Sylweddoli potensial asedau naturiol a diwylliannol mewn ffordd gynaliadwy drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr sy'n ymweld â chymunedau arfordirol yn ardal y Rhaglen | Cyfanswm nifer yr ymwelwyr tramor i gymunedau arfordirol ardal y Rhaglen<br><br>Targed: 7,040,040 o ymwelwyr tramor | Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogir * | 10 |
| | | Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd | 2 |
| | | Nifer y rhwydweithiau twristiaeth newydd sy'n hybu asedau diwylliannol, naturiol neu dreftadaeth | 12 |
| | | Nifer y cymunedau arfordirol sy'n cymryd rhan mewn cydweithredu trawsffiniol o gwmpas twristiaeth ddiwylliannol, naturiol neu dreftadaeth | 20 |

## 2d Crynodeb o'r Fframwaith Perfformiad

| Echel Blaenoriaeth | Math o Ddangosydd | Diffiniad o'r dangosydd neu gam gweithredu | Carreg filltir ar gyfer 2018 | Y targed terfynol (2023) | Eglurhad o berthnasedd y dangosydd, lle bo'n briodol |
|---|---|---|---|---|---|
| **(1) Arloesedd trawsffiniol** | Cam gweithredu | Nifer y prosiectau a gafodd eu cymeradwyo gyda mentrau'n cydweithredu â sefydliadau ymchwil | 5 | d/b | Disgwylir y bydd y gweithgareddau sy'n ymwneud â'r cydweithredu rhwng mentrau a sefydliadau ymchwil wedi dechrau, ond na fyddant wedi eu cwblhau eto.<br>Felly, dewiswyd cam gweithredu i ategu dangosydd y cynnyrch '*nifer y mentrau sy'n cydweithredu â sefydliadau ymchwil*'.<br>Bydd y mathau hyn o brosiectau yn cyfrif am fwy na 50% o'r dyraniad ariannol i'r flaenoriaeth. Byddai profiad y gorffennol yn awgrymu'n gryf os sicrheir 50% o leiaf o'r prosiectau disgwyliedig erbyn y flwyddyn garreg filltir, y caiff y targed ei gyrraedd. |
| | Cynnyrch | Nifer y mentrau sy'n cydweithredu â sefydliadau ymchwil | d/b | 70 | Bydd y mathau hyn o brosiectau yn cyfrif am fwy na 50% o'r dyraniad ariannol i'r flaenoriaeth. Ni chadarnheir y prosiectau cyntaf a gymeradwywyd tan ail hanner 2015; disgwylir i'r rhan fwyaf o brosiectau bara am dair blynedd. Felly, mae'n annhebygol y bydd unrhyw brosiectau wedi eu cwblhau erbyn y garreg filltir o ddiwedd 2018. |

| Echel Blaenoriaeth | Math o Ddangosydd | Diffiniad o’r dangosydd neu gam gweithredu | Carreg filltir ar gyfer 2018 | Y targed terfynol (2023) | Eglurhad o berthnasedd y dangosydd, lle bo’n briodol |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ariannol | Cyfanswm y gwariant cymwys a gofnodwyd yn system gyfrifo yr awdurdod ardystio ac a ardystiwyd gan yr awdurdod | €7,751,906 | €39,599,244 | Mae'r dangosydd hwn yn unol â thargedau N + 3. |
| **(2) Ymaddasiad Môr Iwerddon a’r cymunedau arfordirol i’r newid yn yr hinsawdd** | Cam gweithredu | Nifer y prosiectau a gymeradwywyd gyda sefydliadau yn cydweithio ar sail drawsffiniol i wella’r amgylchedd morol ac arfordirol | 4 | d/b | Dewiswyd hwn i ategu dangosydd yr allbwn '*nifer o sefydliadau yn cydweithio i wella'r amgylchedd morol ac arfordirol*' gan y diffinnir cydweithredu fel rhywbeth fydd yn para drwy gydol oes y prosiect. Golyga hyn y bydd y gweithgaredd wedi dechrau ond na fydd efallai wedi ei gwblhau. Bydd y mathau hyn o brosiectau yn cyfrif am fwy na 50% o'r dyraniad ariannol i'r flaenoriaeth. Byddai profiad y gorffennol yn awgrymu'n gryf os sicrheir 50% o leiaf o’r prosiectau disgwyliedig erbyn y flwyddyn garreg filltir, y caiff y targed ei gyrraedd. |
| | Cynnyrch | Nifer y sefydliadau sy’n cydweithio i wella’r amgylchedd morol ac arfordirol | d/b | 24 | Bydd y mathau hyn o brosiectau yn cyfrif am fwy na 50% o'r dyraniad ariannol i'r flaenoriaeth. Ni chadarnheir y prosiectau cyntaf a gymeradwywyd tan ail hanner 2015; disgwylir i'r rhan fwyaf o brosiectau bara am dair blynedd. Felly, mae'n annhebygol y bydd unrhyw brosiectau wedi eu |

| Echel Blaenoriaeth | Math o Ddangosydd | Diffiniad o'r dangosydd neu gam gweithredu | Carreg filltir ar gyfer 2018 | Y targed terfynol (2023) | Eglurhad o berthnasedd y dangosydd, lle bo'n briodol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cwblhau erbyn y garreg filltir o ddiwedd 2018. |
| | Ariannol | Cyfanswm y gwariant cymwys a gofnodwyd yn system gyfrifo yr awdurdod ardystio ac a ardystiwyd gan yr awdurdod | €4,157,919 | €34,649,320 | Mae'r dangosydd hwn yn unol â thargedau N + 3. |
| **(3) Adnoddau a Threftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol** | Cam gweithredu | Nifer y prosiectau a gymeradwywyd sy'n golygu bod cymunedau arfordirol yn cymryd rhan mewn cydweithredu trawsffiniol o gwmpas twristiaeth ddiwylliannol, naturiol neu dreftadaeth | 4 | d/b | Dewiswyd hwn i ategu dangosydd yr allbwn '*nifer o gymunedau arfordirol sy'n cymryd rhan mewn cydweithredu trawsffiniol o gwmpas twristiaeth ddiwylliannol, naturiol neu dreftadaeth'* gan y diffinnir cydweithredu fel rhywbeth fydd yn para drwy gydol oes y prosiect. Golyga hyn y bydd y gweithgaredd wedi dechrau ond na fydd efallai wedi ei gwblhau erbyn 2018. Bydd y mathau hyn o brosiectau yn cyfrif am fwy na 50% o'r dyraniad ariannol i'r flaenoriaeth. Byddai profiad y gorffennol yn awgrymu'n gryf os sicrheir 50% o leiaf o'r prosiectau disgwyliedig erbyn y flwyddyn garreg filltir, y caiff y targed ei gyrraedd. |
| | Cynnyrch | Nifer y cymunedau arfordirol sy'n cymryd rhan mewn cydweithredu trawsffiniol o gwmpas twristiaeth ddiwylliannol, naturiol neu dreftadaeth | d/b | 20 | Bydd y mathau hyn o brosiectau yn cyfrif am fwy na 50% o'r dyraniad ariannol i'r flaenoriaeth. Ni chadarnheir y prosiectau cyntaf a gymeradwywyd tan ail hanner 2015; disgwylir i'r rhan |

| Echel Blaenoriaeth | Math o Ddangosydd | Diffiniad o'r dangosydd neu gam gweithredu | Carreg filltir ar gyfer 2018 | Y targed terfynol (2023) | Eglurhad o berthnasedd y dangosydd, lle bo'n briodol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | fwyaf o brosiectau bara am dair blynedd. Felly, mae'n annhebygol y bydd unrhyw brosiectau wedi eu cwblhau erbyn y garreg filltir o ddiwedd 2018. |
| | Ariannol | Cyfanswm y gwariant cymwys a gofnodwyd yn system gyfrifo yr awdurdod ardystio ac a ardystiwyd gan yr awdurdod | €2,257,156 | €18,809,632 | Mae'r dangosydd hwn yn unol â thargedau N + 3. |

# 3 THEMÂU TRAWSBYNCIOL

## Datblygiad cynaliadwy

3.1 Mae Iwerddon a Chymru yn gwerthfawrogi pwysigrwydd datblygiad cynaliadwy. Mae Pennod Cymru o Gytundeb Partneriaeth y DU yn rhoi trosolwg ar y dull o hyrwyddo'r egwyddorion llorweddol ar draws cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIF) yng Nghymru sy'n cynnwys y Thema Drawsbynciol (ThD) o Ddatblygiad Cynaliadwy. Mae hefyd yn amlinellu prif egwyddorion ac amcanion trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer cynaladwyedd sy'n darparu'r sail ar gyfer gweithredu'r Thema Drawsbynciol o fewn y Rhaglenni Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) yng Nghymru. O ran cynaladwyedd amgylcheddol, *Cynnal Cymru Fyw* yw dull newydd Llywodraeth Cymru o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru, ac mae'n seiliedig ar ddull yr ecosystem. Diffinnir ecosystem fel yr holl bethau byw mewn amgylchedd, gan gynnwys eu rhyngweithiadau gyda'i gilydd a gyda'u hamgylchedd.

3.2 Lansiodd Llywodraeth Iwerddon fframwaith datblygu cynaliadwy wedi ei adnewyddu ym mis Mehefin 2012. Amcanion *'Our Sustainable Future – A Framework for Sustainable Development for Ireland'* yw nodi a blaenoriaethu'r meysydd polisi a'r mecanweithiau lle bydd dull datblygu cynaliadwy yn ychwanegu gwerth ac yn ei gwneud yn bosibl gwella ansawdd bywyd yn barhaus ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol a nodi mesurau, cyfrifoldebau a llinellau amser clir mewn cynllun gweithredu.[1]

3.3 Bydd y Rhaglen yn cyfrannu at gyflawni nodau cynaladwyedd amgylcheddol fel a ganlyn:

- Hyrwyddo ymchwil ac arloesedd ym maes newid hinsawdd o dan Flaenoriaeth 1 – adeiladu ar y buddsoddiadau sydd eisoes wedi eu gwneud yn y maes hwn o dan Raglen 2007-2013;

---

[1] http://www.environ.ie/en/Environment/SustainableDevelopment/PublicationsDocuments/FileDownLoad,30452,en.pdf

- Cynyddu'r potensial i gynhyrchu ynni adnewyddadwy drwy gefnogi gweithgaredd ymchwil a datblygiad yn y Diwydiant Ynni Morol o dan Flaenoriaeth 1;
- Datblygu'r sector amgylcheddol drwy gefnogi gweithgarwch ymchwil a datblygiad mewn eco-arloesi o dan Flaenoriaeth 1 a thrwy gefnogi twf gwyrdd ym Mlaenoriaeth 3;
- Hybu, datblygu a gwerthuso mesurau ymaddasu i'r Newid yn yr Hinsawdd o dan Flaenoriaeth 2;
- Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o'r dreftadaeth a'r adnoddau naturiol o dan Flaenoriaeth 3;
- Gwella'r amgylchedd – yn enwedig yr amgylchedd arfordirol a morol i gefnogi twf glas a gwyrdd o dan Flaenoriaeth 1.

3.4 At hynny, cymerir y camau canlynol i ddethol a datblygu gweithrediadau dan y Rhaglen hon:

- Caiff targedau eu pennu ar lefel Blaenoriaeth gan ddarparu sbardun pwysig i sicrhau bod y gweithrediadau yn mynd i'r afael ag amcanion themâu trawsbynciol y Rhaglen;
- Sicrhau bod meini prawf dethol gweithrediadau yn asesu gweithrediadau ar sail gofynion diogelu'r amgylchedd, effeithlonrwydd adnoddau, lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu, gwytnwch yn wyneb trychinebau ac atal risg;
- Bydd cyngor arbenigol parhaus ar gael i'r gweithrediadau. Un o'r amcanion allweddol fydd darparu'r cyfraniad arbenigol yn gynnar yn y broses i gynyddu'r defnydd a wneir o'r cyfleoedd i hyrwyddo'r themâu trawsbynciol;
- Darperir Rhaglen codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant, fel bo'n briodol, i staff y Rhaglen a buddiolwyr gweithrediadau ynghylch manteision, ac arfer gorau, wrth integreiddio'r themâu trawsbynciol;
- Darperir arweiniad ar lefel gweithgaredd ynghyd ag esiaplau o astudiaethau achos arfer gorau fydd yn rhoi gwybodaeth benodol sut y gall buddiolwyr fynd i'r afael â'r themâu trawsbynciol yn eu cynlluniau busnes;
- Monitro a gwerthuso 'r ffordd y cymhwysir yr egwyddor ac ystyried canlyniadau camau monitro a gwerthuso o'r fath;

- Adroddiadau diweddaru i Bwyllgor Monitro’r Rhaglen (PMRh) a rhanddeiliaid eraill;
- Cynnwys cyrff sy'n gweithio ym meysydd datblygiad cynaliadwy ar bob cam (paratoi, gweithredu, monitro, gwerthuso), gan gynnwys darparu cyngor ynghylch datblygu cynaliadwy mewn gweithgareddau cysylltiedig â’r gronfa;
- Dylai’r holl fuddiolwyr ystyried ffyrdd i integreiddio datblygiad cynaliadwy. Er enghraifft: penodi neu ddynodi aelod priodol o staff i hyrwyddo integreiddio'r thema drawsbynciol hon o fewn gweithrediad.

3.5 Drwy fesurau anuniongyrchol, ar lefel yr unigolyn neu’r sefydliad, a thrwy sicrhau bod gweithrediadau yn mabwysiadu arferion ac egwyddorion datblygu cynaliadwy priodol wrth gyflawni gweithgaredd, bydd buddsoddiadau yn gallu cefnogi egwyddorion ac amcanion datblygiad cynaliadwy cyffredinol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon

3.6 Ni fydd cynigion gweithrediad yn gymwys ond cyn belled â bod amcanion a gweithgareddau’r gweithrediad heb fod yn gwrthdaro yn erbyn egwyddorion datblygu cynaliadwy fel y’u diffinnir gan 'Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy' yr Undeb Ewropeaidd. Yn dilyn hyn, gofynnir i'r ymgeiswyr ddiffinio yn eu cais sut y bydd eu gweithrediadau yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Drwy lofnodi'r ffurflen gais, mae ymgeiswyr yn awtomatig yn cytuno â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy.

3.7 Bydd cyfraniad Rhaglen Iwerddon Cymru i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn rhan o werthusiad Rhaglen Iwerddon Cymru.

## Cyfle cyfartal a pheidio â gwahaniaethu

3.8 Mae egwyddor lorweddol cyfle cyfartal a pheidio â gwahaniaethu yn rhan annatod o ddeddfwriaeth yr UE, y DU, Cymru ac Iwerddon. Mae integreiddio cyfle cyfartal, prif ffrydio rhyw a'r ieithoedd Cymraeg a Gwyddeleg yn bwysig, nid yn unig am resymau cyfreithiol ond hefyd oherwydd bod gwahanol adrannau cymdeithasol a demograffig o'r gymdeithas yn y farchnad lafur yn cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y gweithgarwch a ddarperir gan y rhaglenni.

3.9 Mae Cytundeb Partneriaeth y DU yn cynnwys manylion y dull o hyrwyddo’r egwyddorion llorweddol ar draws y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) yng Nghymru. Lansiodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun

Cydraddoldeb Strategol (2012-16) a'i hamcanion cydraddoldeb yn 2012. Datblygwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn unol â dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae Deddf Cydraddoldeb y DU 2010 yn gosod dyletswydd ar y sector cyhoeddus, a elwir yn ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (DCSC). Mae WEFO, gan ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, yn rhwymedig dan y DCSC.

3.10 Mae'r *Employment Equality Act* 2004 a'r *Equal Status Acts* 2000 i 2004 yn Iwerddon yn gwahardd gwahaniaethu mewn cyflogaeth, hyfforddiant galwedigaethol, addysg, hysbysebu, cytundebau ar y cyd, llety, darparu nwyddau a gwasanaethau a chyfleoedd eraill y mae'r cyhoedd yn cael mynediad atynt fel rheol. At hynny, mae *National Disability Strategy* Iwerddon 2004 yn adeiladu ar bolisi a deddfwriaeth bresennol. Gellir cael mwy o wybodaeth am bolisïau Ewropeaidd a Chenedlaethol yn yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (AEG).

3.11 Amcanion cydraddoldeb allweddol ar gyfer Rhaglen Iwerddon Cymru yw:

- Cefnogi Ymchwil, Datblygiad a Buddsoddi sy'n ceisio ymdrin ag agweddau ar heriau cymdeithasol, yn benodol ar gyfer cymunedau sydd wedi'u heithrio neu sydd mewn perygl o gael eu heithrio o dan Flaenoriaeth 1;
- Cefnogaeth hyblyg ar gyfer arloesi sy'n targedu grwpiau a dangynrychiolir, e.e. pobl anabl dan Flaenoriaeth 1;
- Canfod y rhwystrau i arloesi a wynebir gan grwpiau a dangynrychiolir a gosod camau yn eu lle i liniaru hyn o dan Flaenoriaeth 1;
- Annog creu amgylchedd sy'n cefnogi lleoedd gwaith cynhwysol ac sy'n hybu cyfle cyfartal i staff, gan gynnwys cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd preifat;
- Cefnogi gweithgareddau sy'n cyfrannu at gynhwysiant cymdeithasol ac economaidd, gan gynnwys grwpiau fel yr ifanc, yr henoed, a mudwyr sy'n fwy tebygol o ddioddef anawsterau economaidd neu gymdeithasol yn enwedig o dan Flaenoriaeth 3;
- Annog cyfranogiad lleol ac ymgysylltiad cymunedol yn arbennig o dan Flaenoriaeth 3 a Blaenoriaeth 2.

3.12 Cynhaliwyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) i asesu effeithiau posibl y Rhaglen ar bobl â nodweddion cymdeithasol-ddemograffig gwahanol. Mae'r AEG

yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'r DCSC. Mae’r adroddiad hefyd yn ymdrin â'r iaith Gymraeg a'r iaith Wyddeleg. Daw'r adroddiad i'r casgliad bod modd i’r Rhaglen sicrhau twf cynaliadwy ac arloesol, cael rheolaeth ar y newid yn yr hinsawdd, a gwneud y gorau o’r adnoddau fel sydd angen er budd pawb o fewn y Rhaglen, cyn belled â bod y gweithrediadau sy'n cael eu darparu yn arwain at gau’r bwlch rhwng gwahanol grwpiau cydraddoldeb. Mae hefyd yn cydnabod bod gan Lywodraeth Cymru draddodiad cryf o integreiddio cydraddoldeb yn ei Rhaglenni Ewropeaidd.

3.13 Yn benodol i'r Rhaglen hon, cymerir y camau canlynol wrth ddethol a datblygu gweithrediadau i hybu cyfle cyfartal ac atal unrhyw wahaniaethu ar sail y naw nodwedd warchodedig a amlinellwyd uchod:

- Cymryd camau priodol wrth weithredu'r Rhaglen i atal gwahaniaethu;
- Sicrhau y bydd meini prawf dethol gweithrediadau yn asesu gweithrediadau ar sail eu cydymffurfiad â gofynion cyfle cyfartal a pheidio â gwahaniaethu;
- Bydd cyngor arbenigol parhaus ar gael i'r gweithrediadau – darparu mewnbwn arbenigol yn gynnar er mwyn cynyddu'r defnydd a wneir o gyfleoedd i hyrwyddo prif ffrydio rhyw a chyfle cyfartal;
- Rhaglen codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer staff y Rhaglen a'r buddiolwyr ar sut i integreiddio amcanion cyfle cyfartal;
- Canllawiau ynghylch lefel gweithgaredd, gydag enghreifftiau o astudiaethau achos arfer gorau, fydd yn rhoi gwybodaeth benodol am y ffordd y gall buddiolwyr ymdrin â phrif ffrydio rhyw a chyfle cyfartal yn eu cynlluniau busnes;
- Monitro a gwerthuso'r ffordd y caiff yr egwyddor ei chymhwyso ac ystyried canlyniadau camau monitro a gwerthuso o'r fath;
- Adroddiadau diweddaru i Bwyllgor Monitro’r Rhaglen (PMRh) a rhanddeiliaid eraill;
- Cynnwys cyrff sy'n gyfrifol am gydraddoldeb a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl ag anableddau ar bob cam gan gynnwys rhoi cyngor ar gydraddoldeb mewn gweithgareddau sy’n ymwneud â’r gronfa;
- Dylai gwefannau i hybu gweithgarwch fod yn gwbl hygyrch/dwyieithog;

- Dylai buddiolwyr ddangos tystiolaeth yn eu ceisiadau o ble maent wedi gweithio – ac y byddant yn parhau i weithio – gyda'r cymunedau lleol, perchenogion busnes a grwpiau defnyddwyr perthnasol i sicrhau bod gweithrediadau wedi'u cynllunio gyda'r defnyddiwr mewn golwg, yn gymorth i gynyddu manteision ac i sicrhau ymddiriedaeth a chefnogaeth, e.e. grwpiau mynediad i'r anabl lleol neu aelodau unig eraill o'r gymuned;
- Dylai'r holl fuddiolwyr ystyried ffyrdd i integreiddio cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhyw.

3.14 Bydd cyfraniad y Rhaglen i hybu cyfle cyfartal a pheidio â gwahaniaethu yn rhan o werthusiad y Rhaglen.

## Cydraddoldeb rhwng dynion a merched

3.15 Mae cydraddoldeb rhwng dynion a merched yn un o'r egwyddorion sylfaenol yng nghyfraith Ewrop, ac mae'n cael ei derbyn a'i chefnogi yn Iwerddon a Chymru. Sonnir yn eglur am hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a merched yn erthygl 7 o Reoliad UE 1303/2013 (darpariaethau cyffredin). Mae'r egwyddor o gydraddoldeb rhwng dynion a merched hefyd wedi'i phlannu'n annatod yn y Rhaglen ac mae'n berthnasol i'r holl weithrediadau yn y Rhaglen.

3.16 Lansiodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol (2012-16) a'i hamcanion cydraddoldeb ar 2 Ebrill 2012. Mae'r rhain yn amlygu sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni'i rhwymedigaethau cyfreithiol yn ogystal â'i hymrwymiad cryf i gydraddoldeb a chynhwysiant. Datblygwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn unol â'r dyletswyddau cyffredinol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC) Deddf Cydraddoldeb 2010.

3.17 Mae polisi Llywodraeth Iwerddon yn y maes hwn yn cynnwys strategaeth ddwbl gan gynnwys fframwaith cyfreithiol sy'n sicrhau triniaeth gyfartal ar gyfer merched a dynion a chefnogaeth ddeddfwriaethol ar gyfer mentrau gweithredu cadarnhaol i ferched a dynion gan gynnwys gweithredu cadarnhaol mewn amgylchiadau neilltuol ac ymrwymiadau i gymhwyso safbwynt cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn yr holl feysydd (prif ffrydio rhyw). Mae Strategaeth Genedlaethol y Merched 2007-2016 yn adlewyrchu ymrwymiad i sylweddoli "Iwerddon lle mae'r merched i gyd yn mwynhau cydraddoldeb gyda dynion ac yn gallu cyrraedd eu potensial llawn, ac ar yr un pryd fwynhau bywyd diogel a boddhaol".

3.18 Roedd yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) yn ymdrin â rhyw a chenedl fel un o'r nodweddion cymdeithasol-ddemograffig gwarchodedig y mae'n eu hystyried. Daeth yr AEG i'r casgliad bod gan y Rhaglen y potensial i sylweddoli effeithiau cadarnhaol i ferched a genethod drwy fynd i'r afael â rhai rhwystrau traddodiadol i fenter a chyflogaeth, megis mynediad cyfyngedig at gefnogaeth. Fodd bynnag, bydd gweithredu'r Rhaglen yn allweddol i sicrhau bod y cyfleoedd i wella cydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn perchenogaeth busnesau bach yn cael eu cynyddu.

3.19 Yr amcanion cydraddoldeb allweddol o ran cydraddoldeb rhwng dynion a merched ar gyfer Rhaglen Iwerddon Cymru yw:

- Cymryd i ystyriaeth, er enghraifft, y bwlch cyflog rhwng dynion a merched, diffyg merched mewn swyddi lle y gallant wneud penderfyniadau a pherthnasedd merched ar lefel rheoli o ran pa mor gystadleuol yw mentrau. Croesewir camau gweithredu penodol gan weithrediadau sy'n cefnogi cyfranogiad a sefyllfa merched a gallai hyn gael ei adlewyrchu yn y meini prawf dethol, yn enwedig ar gyfer Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3;
- Canfod rhwystrau penodol i arloesedd a wynebir gan ferched a sefydlu camau gweithredu i liniaru'r rhain o dan Flaenoriaeth 1;
- Cefnogi entrepreneuriaeth a mentrau busnes newydd i annog mwy o ferched i fanteisio;
- Cyfleoedd sy'n amlygu'r cyfraniad unigryw y mae merched yn ei wneud i'w cymuned o dan Flaenoriaeth 3.

3.20 Yn benodol i'r Rhaglen hon, mae'r camau sydd i gael eu cymryd i ddethol a datblygu gweithrediadau er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a merched fel y disgrifir yn adran 8.2. Yn ogystal â hyn, bydd cydbwysedd rhwng y rhywiau yn ystyriaeth allweddol gyda golwg ar gyfansoddiad yr holl bwyllgorau ar lefel y Rhaglen gan gynnwys Pwyllgor Monitro'r Rhaglen.

3.21 Bydd cyfraniad Rhaglen Iwerddon Cymru i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a merched yn rhan o werthusiad y Rhaglen.

# 4 ECHEL BLAENORIAETH 1: ARLOESI TRAWSFFINIOL

## Cyflwyniad

4.1 Echel Blaenoriaeth gyntaf y Rhaglen (EB1) yw ‘Arloesi Trawsffiniol'. Diffinnir 'perfformiad arloesi gwell' yng nghyd-destun y Rhaglen hon fel gwell defnydd o ganlyniadau ymchwil ar gyfer datblygu technolegau, cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau newydd sy'n cael effaith ar amodau cymdeithasol, demograffig, gofodol, economaidd ac amgylcheddol ardal y Rhaglen. Bydd 'capasiti arloesi uchel', sef y wybodaeth a gymhwysir, y sgiliau, yr offer a’r rhwydweithiau i ddatblygu syniadau newydd, yn rhagofyniad i sicrhau'r canlyniad hwn.

4.2 Mae llwyddiant y thema Arloesi a Chystadleurwydd yn Rhaglen 2007-2013, yn ogystal â'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol a'r fframweithiau cenedlaethol ac Ewropeaidd, wedi dylanwadu ar ddewis a datblygu’r Echel Blaenoriaeth hon. Bydd y Flaenoriaeth hon yn canolbwyntio’n arbennig ar gynyddu arloesedd o fewn busnesau bach a chanolig, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, o fewn blaenoriaethau cyffredin y strategaethau arbenigo craff.

4.3 Mae’r Rhaglen yn canolbwyntio’n bennaf ar gyfnodau 'profi' neu 'ddatblygu' arloesedd, ac felly’n gweithredu fel galluogwr. Ei nod yw dod â chynnyrch arloesol yn nes i'r farchnad a chefnogi blaenoriaethau cyffredin y strategaethau arbenigo craff perthnasol yng Nghymru ac Iwerddon. Mae *Gwyddoniaeth i Gymru* ac *Arloesi Cymru* (sydd gyda'i gilydd yn ffurfio Strategaeth Arbenigo Craff Cymru) a'r *Strategaeth Blaenoriaethu Ymchwil* (sy'n ffurfio Strategaeth arbenigo craff Iwerddon) yn darparu fframwaith polisi priodol ar gyfer y Flaenoriaeth hon. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i ffocws sectoraidd y Rhaglen addasu wrth i feysydd blaenoriaeth newydd ddod i’r amlwg yn ystod oes y Rhaglen.

4.4 Bydd ffocws penodol ar weithgareddau a sectorau lle mae cyfatebolrwydd rhwng yr arbenigedd yn y ddwy diriogaeth. Bydd y meysydd hyn yn cynnwys:

- Gwyddorau Morol ac Amgylcheddol (gan gynnwys ynni adnewyddadwy);
- Bwyd a Diod;
- Gwyddorau Bywyd.

4.5 Mae EB1 yn cynnwys un Amcan Thematig (ATh) ac un Blaenoriaeth Fuddsoddi (BF) sy'n trosi yn un Amcan Penodol (AP). Mae’r Echel Blaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar ymchwil gymhwysol ac arloesi ac mae’n gynhwysol yn ei chwmpas thematig. Fodd bynnag, mae'n bwysig i weithrediadau sy’n gwneud

cais o dan y Flaenoriaeth hon sefydlu cysylltiad clir â blaenoriaethau cyffredin y strategaethau arbenigo craff.

## *AMCAN PENODOL 1*: Cynyddu dwyster y cydweithrediadau trosglwyddo gwybodaeth sy'n cynnwys sefydliadau ymchwil a busnesau bach a chanolig yn unol â blaenoriaethau cyffredin y strategaethau arbenigo craff

4.6 Mae gan ardal Rhaglen Iwerddon Cymru botensial arloesi sylweddol gyda nifer o Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) yn cynhyrchu ymchwil o safon uchel. Mae Strategaethau arbenigo craff (SAC) y ddwy wlad yn cydnabod bod pocedi o arbenigedd o safon byd-eang yn y byd academaidd mewn meysydd sydd â photensial masnachol. Maent hefyd yn cydnabod clystyrau o Arbenigo Craff sy'n dod i'r amlwg yn ogystal â chyfleoedd i adeiladu ar arfer gorau presennol mewn masnacheiddio ymchwil a datblygiad. Mae cyfatebolrwydd arbennig rhwng y SAC yn y tri sector y soniwyd amdanynt uchod.

4.7 Fodd bynnag, nid yw'r potensial ymchwil hwn o reidrwydd yn treiglo i lawr i'r sector preifat a busnesau bach a chanolig yn neilltuol. Mae hyn yn cysylltu â'r dadansoddiad SWOT sy'n nodi nifer o SAU sy'n cynhyrchu ymchwil o ansawdd da a sector mawr o fusnesau bach a chanolig gyda photensial ymchwil a datblygu. Er gwaethaf peth cynnydd, nid yw ymchwil a datblygiad yn cyfrif ond am gyfran gymharol fechan o'r cynnyrch domestig crynswth (GDP). Mae adran 1 yn cadarnhau anawsterau parhaus o ran trosi gwyddoniaeth ac ymchwil yn gynnyrch masnachol. Hefyd nid yw mentrau Cymru yn gweld yr un lefelau o gynhyrchion newydd llwyddiannus neu gynhyrchion wedi eu gwella ag y mae rhanbarthau eraill y DU. Yr un pryd, mae gan fusnesau bach a chanolig yn Iwerddon gyfanswm trosiant is na chwmnïau mwy o faint a phriodolir hyn i weithgareddau arloesi gyda chynnyrch newydd i'r cwmni a newydd i'r farchnad. Mae'r Rhaglen yn darparu cyfleoedd i gyfrannu at annog mwy o fuddsoddiad mewn ymchwil a datblygu drwy weithgaredd trawsffiniol. Nod y Flaenoriaeth hon yw rhoi sylw i ysgogi cydweithredu ar lefel drawsffiniol a thraws-sector, creu rhwydweithiau a chlystyrau a mynd i'r afael â rhwystrau i arloesi. Y canlyniadau y mae'r flaenoriaeth hon yn ceisio eu sicrhau yw:

- Canfod ac ymdrin â'r rhwystrau a wynebir gan fusnesau bach a chanolig gan gynnwys mentrau cymdeithasol;
- Cynyddu nifer y rhwydweithiau trawsffiniol rhwng sefydliadau ymchwil a busnesau bach a chanolig ac felly brysuro trosglwyddiad gwybodaeth drwy gydweithredu. Bydd y Rhaglen yn defnyddio ystod ehangach o arbenigedd a phrofiad y gellir cael mynediad ato mewn perthynas â blaenoriaethau cyffredin y SAC;
- Dod â chynhyrchion arloesol newydd yn nes i'r farchnad o ganlyniad i'r cydweithredu trawsffiniol rhwng sefydliadau ymchwil a busnesau bach a chanolig o fewn blaenoriaethau cyffredin y SAC;
- Cryfhau'r ymatebion i'r SAC a darparu cyfleoedd i ddatblygu cystadleurwydd rhyngwladol y busnesau bach a chanolig yn unol â'r blaenoriaethau cyffredin a nodwyd.

4.8 Yn y modd hwn, nod y Rhaglen yw cynorthwyo i gynyddu buddsoddiadau busnesau bach a chanolig mewn ymchwil a datblygiad yn y sectorau SAC cyffredin.

4.9 Bydd Rhaglen Iwerddon Cymru yn ysgogi’r potensial arloesi i fynd i’r afael â heriau cymdeithasol drwy ddefnyddio atebion arloesol. Bydd y rhain yn ymdrin â’r heriau y mae cymunedau sydd dan bwysau yn eu hwynebu a phoblogaethau sydd wedi eu hallgáu neu mewn perygl o gael eu hallgáu. Byddant yn rhoi sylw i agweddau ar Her 6 ac yn cyfrannu i amcan ‘twf cynhwysol’ Ewrop 2020.

## Dangosydd Cynnyrch

| Dangosydd | Uned Fesur | Gwerth Cychwynnol | Blwyddyn gyntaf | Gwerth Targed[2] (2023) | Ffynhonnell y Data | Amlder Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefelau buddsoddi mewn ymchwil a datblygiad ac arloesi yn codi o gydweithredu trawsffiniol mewn blaenoriaethau cyffredin fel y nodwyd yn y strategaethau arbenigol craff | I'w chadarnhau | I'w gadarnhau | 2015 | I'w gadarnhau | I'w chadarnhau – Data / Arolwg penodol i'r Rhaglen | 2015 (man cychwyn)<br>2018<br>2021<br>2023 (gwerth terfynol) |

4.10 Caiff y data ar gyfer y Dangosydd Cynnyrch ei gasglu naill ai drwy'r data sy'n bodoli eisoes, drwy arolwg omnibws busnes neu drwy arolwg penodol i'r Rhaglen, gyda'r man cychwyn a'r targed wedi eu gosod yn 2015. Caiff yr uned fesur ei phennu gan yr arolwg/data fydd yn sail i'r man cychwyn. Caiff yr adran hon ei diweddaru wrth i waith fynd yn ei flaen ac wrth i fannau cychwyn gael eu gosod.

[2] Gall gwerthoedd targed fod yn ansoddol neu'n feintiol.

## Camau i'w cefnogi o dan y flaenoriaeth fuddsoddi

4.11 Mae’r Flaenoriaeth hon yn targedu’r diffyg capasiti o fewn busnesau bach a chanolig – gan gynnwys mentrau cymdeithasol – i arloesi. Bydd yn gwneud hyn drwy annog Sefydliadau Addysg Uwch (AU) ac Addysg Bellach (AB) a sefydliadau sector cyhoeddus eraill (e.e. awdurdodau lleol, y trydydd sector) i gydweithredu gyda busnesau bach a chanolig ar draws ardal Rhaglen Iwerddon Cymru er mwyn ei gwneud yn bosibl cynyddu cynhyrchiant o fewn blaenoriaethau cyffredin strategaethau arbenigo craff Cymru ac Iwerddon.

4.12 Prif ffocws y Flaenoriaeth hon felly fydd cydweithrediad rhwng y sefydliadau AU ac AB yn y rhanbarth trawsffiniol a'i fusnesau bach a chanolig a throsglwyddo gwybodaeth i fusnesau bach a chanolig y rhanbarth er mwyn gwella perfformiad arloesi ac arbenigedd ar y cyd gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau cyffredin y strategaethau arbenigo craff.

4.13 Er ei bod yn bwysig cynyddu'r llif gwybodaeth rhwng sectorau, yr hyn sy'n gallu cyfrannu at gynnydd mewn swyddi a thwf ar draws ardal y Rhaglen yw trosi'r prosesau ymchwil ac arloesi yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol newydd a gwell. Caiff hyn ei wneud drwy gamau cydweithredol fydd yn symud y cynhyrchion, y gwasanaethau neu’r prosesau penodol a ddatblygir ymlaen i sefyllfa o fod yn barod i’r farchnad.

4.14 Bydd camau gweithredu’n canolbwyntio’n bennaf ar y cyfnod o ddilysu cysyniad/technoleg y syniad arloesol, gan gynnwys y cyfnodau o ddylunio, profi a datblygu. Ni ellir gwarantu llwyddiant a byddwn yn ceisio cefnogi amrywiaeth gytbwys o fuddsoddiadau gan gynnwys camau gweithredu peilot ac ymchwil gymhwysol ac arloesi, ochr yn ochr â gweithrediadau sydd â photensial amlwg i fanteisio ar y farchnad. Disgwylir i weithrediadau ganolbwyntio ar flaenoriaethau cyffredin y strategaethau arbenigo craff a chânt eu blaenoriaethu ar sail eu gallu i ddangos manteision clir o weithio ar y gweithgarwch hwn ar sail trawsffiniol. Drwy gydweithio â Sefydliadau Addysg Uwch a sefydliadau ymchwil, bydd busnesau bach a chanolig yn gallu ennill y profiad a'r medrusrwydd i oresgyn y rhwystr i ymgysylltiad.

4.15 Mae'r rhaglen yn ceisio cynyddu buddsoddiad yn y meysydd blaenoriaeth cyffredin hyn gyda chysylltiad clir â chanlyniadau economaidd, lle y gall gyfrannu at dwf a chynhyrchiant yn ardal y Rhaglen. Fodd bynnag, er bod gweithrediadau sydd wedi eu hanelu at gynyddu twf craff yn bwysig, bydd ffocws

hefyd o fewn y flaenoriaeth hon ar dwf cynhwysol ac arloesi cymdeithasol. Dylid targedu camau gweithredu yn benodol at sicrhau bod cymunedau sydd mewn perygl neu gymunedau ymylol yn cael eu hamddiffyn a'u hintegreiddio a dylid canfod datrysiadau cytbwys ar gyfer cymunedau gwledig a threfol. Croesewir camau gweithredu sy'n anelu at gefnogi datblygu, profi a gweithredu datrysiadau arloesol i ateb anghenion a phroblemau cymdeithasol ('arloesi cymdeithasol') ac sy'n gallu hefyd gyfrannu at adfywio'r cymunedau hyn yn economaidd. Bydd hyn yn cynnwys camau gweithredu sy'n cefnogi arloesedd mewn mentrau cymdeithasol a gweithgaredd entrepreneuraidd cymdeithasol.

4.16 O ystyried bod meysydd y gwyddorau morol ac amgylcheddol (gan gynnwys ynni adnewyddadwy) yn flaenoriaethau a rennir, bydd eco-arloesi yn llinyn canolog fydd yn rhedeg drwy'r flaenoriaeth hon. Nod camau gweithredu fydd creu clystyrau a rhwydweithiau trawsffiniol, fydd yn canolbwyntio ar y gwyddorau morol ac amgylcheddol yn ogystal â datblygu technolegau, cynnyrch, prosesau a gwasanaethau arloesol gyda'r pwrpas o wneud cynnydd sylweddol ac amlwg tuag at y nod o ddatblygiad cynaliadwy. Bydd camau gweithredu hefyd wedi eu hanelu at archwilio'r potensial ar gyfer cynhyrchu ynni môr ym Môr Iwerddon a dulliau eraill o gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

4.17 Bydd y mathau o gydweithredu trawsffiniol yn y Rhaglen yn cynnwys un neu fwy o'r cydrannau canlynol ym mhob un o'r tair Echel Blaenoriaeth:

- **Sefydlu neu ddatblygu** rhwydwaith, llwyfan cydweithredu, porth neu strategaeth;
- **Trosglwyddo neu fabwysiadu** gwybodaeth, arbenigedd, technolegau neu arfer gorau;
- **Galluogi neu baratoi'r ffordd** ar gyfer buddsoddi mewn dylunio, datblygu, profion neu gyflawni prosesau, cynnyrch, astudiaethau neu wasanaethau newydd –er enghraifft, camau gweithredu peilot, modelau arddangos ac yn y blaen;
- **Buddsoddiadau ar raddfa fechan** lle mae gwerth ychwanegol trawsffiniol amlwg a chydymffurfiad ag amcanion y rhaglen (e.e. buddsoddiad perthnasol ar raddfa fechan, megis prynu offer i ddibenion peilot neu arddangos, e-isadeiledd ac yn y blaen).

4.18 Bydd amcanion gweithrediadau yn cyd-fynd ag Amcanion Penodol y Rhaglen. Bydd cysylltiad pendant rhwng cynnyrch gweithrediad ac amcanion penodol y gweithrediad a byddant yn gysylltiedig â chanlyniadau disgwyliedig y prosiect.

Bydd cynnyrch gweithrediadau yn gyson â chamau gweithredu'r Rhaglen, ac felly byddant yn cyflawni yn erbyn dangosyddion cynnyrch y Rhaglen.

4.19 Mae enghreifftiau o fathau dangosol o weithredoedd trawsffiniol sydd i gael eu cefnogi o dan yr AP hwn yn cynnwys:

- Trosglwyddo gwybodaeth rhwng y byd academaidd (sefydliadau addysg uwch a phellach ac ymchwil) a busnesau bach a chanolig i gefnogi arloesi mewn busnes, yn unol â blaenoriaethau cyffredin y strategaethau arbenigo craff a gwella arloesi, gan gynnwys cadwyni cyflenwi rhwng busnesau bach a chanolig a'r byd academaidd;
- Treialu mentrau i roi prawf ar gynhyrchion, prosesau neu wasanaethau arloesol, yn seiliedig ar Dechnolegau Galluogi Allweddol a'r SAC, mewn meysydd sydd â photensial masnachol. Bydd hyn yn cynnwys gweithrediadau ymchwil a chynlluniau peilot trawsffiniol i arddangos cymhwysiad ymarferol a'r modd y gellir eu trosglwyddo i fusnesau a chymunedau ehangach;
- Arddangos, profi, a marchnata cynhyrchion, gwasanaethau, prosesau a systemau newydd yn drawsffiniol, yn seiliedig ar Dechnolegau Galluogi Allweddol a'r SAC h.y. ei gwneud yn bosibl datblygu cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd, gan gynnwys y rhai â photensial masnacheiddio;
- Creu clystyrau neu rwydweithiau arloesi trawsffiniol, megis creu llwyfan ar gyfer SAU, y trydydd sector, busnesau ac asiantaethau sector cyhoeddus i gydweithio a chydlynu eu gweithgareddau ar sail trawsffiniol i ddiwallu anghenion ardal y Rhaglen – er enghraifft Porth yn seiliedig ar Fôr Iwerddon;
- Cynllunio datrysiadau arloesol ar y cyd yn drawsffiniol, a allai gynnwys cynnal peilot, treialu neu ganfod ffyrdd i oresgyn rhwystrau i arloesi, yn enwedig y rheiny a wynebir gan fusnesau bach a chanolig a Mentrau Cymdeithasol. Byddai'r rhain yn cynnwys y rhwystrau a wynebir gan grwpiau a dangynrychiolir a phoblogaethau sy'n unig, sydd wedi eu hallgáu neu sydd mewn perygl o gael eu hallgáu;
- Llwyfannau cydweithredu sy'n datblygu'r cysyniad o'r gwyddonydd ddinesydd (h.y. ymgysylltiad cymunedol) yn gweithio mewn ffordd arloesol gyda SAU a sefydliadau ymchwil eraill. Bydd y rhain yn galluogi mentrau cymunedol i ddysgu oddi wrth y byd academaidd, arloesi a chynyddu buddsoddiad;
- Cysylltu'r byd academaidd a busnesau bach a chanolig er mwyn datblygu a throsglwyddo modelau arfer gorau. Bydd hyn yn cynorthwyo busnesau bach a

chanolig i ddod yn rhyngwladol a chystadleuol a datblygu masnach drwy ddefnyddio partneriaethau trawsffiniol.

4.20 Yn ogystal â mynd i'r afael â thwf economaidd, gall camau gweithredu dan y Flaenoriaeth hon hefyd anelu at ymdrin ag anghenion cymdeithasol yn ardal y Rhaglen a chaniatáu i'r Rhaglen gyfrannu tuag at darged 'twf cynhwysol' Ewrop 2020.

### *Adnabod meysydd thematig targed*

4.21 Bydd y Strategaethau Arbenigo Craff perthnasol yng Nghymru ac Iwerddon yn darparu'r fframwaith polisi priodol i lywio'r gwaith o ddethol gweithrediadau o dan yr Amcan Penodol hwn. Canolbwyntir ar y tri maes blaenoriaeth a grybwyllwyd uchod.

4.22 Yn y cyd-destun hwn, bydd y Rhaglen drawsffiniol hefyd yn tynnu ar bwysigrwydd Technolegau Galluogi Allweddol (KETs) yn y rhanbarth drawsffiniol, e.e. cymwysiadau TGCh, nanodechnoleg, optoelectroneg.

### *Adnabod prif grwpiau targed*

4.23 Y prif grwpiau targed ar gyfer yr Amcan Penodol hwn yw:

- Sefydliadau addysg a gwybodaeth – gan gynnwys cyrff ymchwil preifat neu led gyhoeddus; bydd y sefydliadau hyn yn cydweithio â'i gilydd i ysgogi ymchwil a datblygiad ac i drosglwyddo gwybodaeth i fusnesau bach a chanolig;
- Busnesau bach a chanolig a Mentrau Cymdeithasol;
- Cyrff canol, megis siambrau masnach, asiantaethau datblygu, cyrff clwstwr, swyddfeydd trosglwyddo technoleg, awdurdodau lleol; disgwylir i'r sefydliadau hyn gymryd rhan fel partneriaid gweithredu i gefnogi arloesi mewn busnesau bach a chanolig;
- Rhanddeiliaid cymdeithas sifil (e.e. sefydliadau trydydd sector megis cyrff anllywodraethol a sefydliadau di-elw); bydd y sefydliadau hyn yn gysylltiedig yn bennaf ag ymyriadau sy'n cynnwys Mentrau Cymdeithasol.

### *Tiriogaethau penodol a dargedir*

4.24 Mae'r Echel Blaenoriaeth hon yn cefnogi gweithrediadau ar draws holl ardal y Rhaglen, ac felly'n cynnig cyfleoedd i bartneriaid o'r holl ranbarthau.

### *Adnabod y prif fuddiolwyr*

4.25 Mae Rhaglen Iwerddon Cymru wedi llwyddo i hwyluso hanes o berthynas waith rhwng amrywiaeth eang o sefydliadau gan gynnwys sefydliadau AU ac AB, adrannau'r Llywodraeth, cyrff cyhoeddus a chyrff yn y trydydd sector. Mae'r Flaenoriaeth hon yn ceisio adeiladu ar hyn a defnyddio eu profiad o ragoriaeth wyddonol ac amgylcheddol i ddatblygu atebion arloesol er budd ardal y Rhaglen.

4.26 Y prif fuddiolwyr fydd yn chwarae rhan uniongyrchol yn yr ymyriadau o dan yr Amcan Penodol hwn yw:

- Cyrff llywodraethol (lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol);
- Sefydliadau addysg a gwybodaeth -, gan gynnwys sefydliadau ymchwil preifat neu led-gyhoeddus;
- Mentrau a busnesau – h.y. busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol.

## Egwyddorion arweiniol ar gyfer dewis gweithrediadau

4.27 Caiff y gweithrediadau yr ymgymerir â hwy i gyflawni'r amcan penodol (AP) hwn eu dewis ar sail yr egwyddorion allweddol canlynol:

- **Ychwanegedd trawsffiniol**: dylai gweithrediadau ganolbwyntio'n glir ar weithgarwch trawsffiniol ar y cyd a rhaid iddynt ddangos ychwanegedd y dull trawsffiniol o'i gymharu â dulliau rhanbarthol, cenedlaethol, rhyngranbarthol neu drawswladol;
- **Cydlyniant allanol**: mae croeso i weithrediadau sy'n adeiladu ar y canlyniadau a grëwyd gan raglenni Ewropeaidd eraill (megis Rhaglen Fframwaith Ymchwil yr UE a Horizon 2020). Dylid darparu esboniad o synergeddau a rhaid sicrhau na ddyblygir gweithrediadau presennol neu flaenorol a gafodd eu cynnal dan raglenni Ewropeaidd eraill neu gyllid cenedlaethol. Dylai gweithrediadau – lle bo'n berthnasol - geisio alinio â blaenoriaethau perthnasol Cynllun Gweithredu'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Strategaeth Forwrol yn Ardal yr Iwerydd. Yn achos Strategaeth Ardal yr

Iwerydd, bydd awdurdodau'r rhaglen yn ymgynghori â'r adrannau hynny yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon sy'n ymwneud ag olrhain datblygiad y Strategaeth i ofyn am gyngor ynghylch perthnasedd a chydlyniant gweithrediadau sy'n dod i'r amlwg;

- **Perthnasedd sector-benodol** : Bydd y strategaethau arbenigo craff perthnasol yng Nghymru ac Iwerddon yn darparu'r fframwaith polisi priodol i lywio dewis gweithrediadau o dan yr Amcan Penodol hwn a dylai gweithrediadau ddangos aliniad â blaenoriaethau cyffredin strategaethau Arbenigo Craff Cymru ac Iwerddon;
- **Perthnasedd traws-sector –** Rhaid i bartneriaethau gynnwys cymysgedd amrywiol o randdeiliaid arloesi (er enghraifft, mentrau, ymchwilwyr, sefydliadau addysg, cyrff hyfforddi, llunwyr polisïau, buddsoddwyr preifat, a defnyddwyr);
- **Dull seiliedig ar ganlyniad**: dylai gweithrediadau fod yn anelu tuag at gynnyrch, gwasanaeth, proses neu offeryn trawsffiniol arloesol penodol. Yn ogystal, dylai gweithrediadau ddangos eu bod yn cyfrannu at un neu ragor o heriau cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol allweddol ardal y Rhaglen. Rhaid i'r gweithrediadau ddangos sut y maent yn cyfrannu at ddangosydd canlyniad y Rhaglen o dan yr Amcan Penodol hwn;
- ***Er mwyn gallu optimeiddio casglu a chymathu canlyniadau'r Rhaglen, bydd yn ofynnol i bob gweithrediad ddisgrifio sut y mae'n bwriadu cyfalafu'r cynnyrch a briodolir i'w weithrediadau a sut y bydd y cyfalafu hwn yn cyfrannu at yr Amcan Penodol a'r dangosydd canlyniad o fewn cyfnod y Rhaglen***. Yn yr Echel Blaenoriaeth hon, er enghraifft, gofynnir i weithrediadau esbonio sut y bydd y rhan berthnasol o'r broses arloesi yn esblygu drwy'r gadwyn arloesi. Bydd gweithdrefnau manwl wedi cael eu plannu yng nghynllun y canllawiau gweithredu ar gyfer y Rhaglen, fydd yn cynnwys gofyniad i adeiladu cyfalafu i mewn i werthusiad y gweithrediadau, gan gynnwys ffocws ar fanteision tymor byr, canolig a hirach. Bydd y Rhaglen yn monitro gweithrediad y cynlluniau hyn;
- Bydd ystyried agweddau cysylltiedig â'r amgylchedd a chymdeithas o fewn yr Echel Flaenoriaeth hon yn dod â synergeddau ychwanegol fydd o fudd i'r Rhaglen, e.e. eco-arloesi a thwf gwyrdd, arloesedd cymdeithasol;
- Cynnwys egwyddorion llorweddol datblygiad cynaliadwy a chyfle cyfartal/peidio â gwahaniaethu yn y meini prawf dethol.

4.28 Ni chaiff gweithrediadau, sy'n canolbwyntio ar gydweithredu academaidd neu ymchwil sylfaenol yn unig, eu hystyried fel rhan o'r rhaglen hon.

4.29 Gellir cynnwys gweithgaredd sy’n canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant a gwella sgiliau fel elfen o weithrediad, lle mae'n ategu ac yn cefnogi prif weithgaredd y gweithrediad.

4.30 Lle y rhoddir cymorth o'r Cronfeydd i fenter fawr, rhaid i’r Awdurdod Rheoli ei sicrhau ei hun na fydd y cyfraniad ariannol o’r Cronfeydd yn arwain at golli nifer sylweddol o swyddi mewn lleoliadau presennol o fewn yr Undeb.

## Dangosyddion Cynnyrch

| Dangosydd | Uned Fesur | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell y Data | Amlder Adrodd |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y mentrau sy’n derbyn cefnogaeth | Mentrau | 1,200 | Monitro’r Rhaglen | Blynyddol |
| Nifer y mentrau sy’n derbyn cefnogaeth heb fod yn ariannol | Mentrau | 1,200 | Monitro’r Rhaglen | Blynyddol |
| Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogir | Cyfateb i lawn amser | 35 | Monitro’r Rhaglen | Blynyddol |
| Nifer y mentrau sy’n cydweithredu gyda sefydliadau ymchwil | Mentrau | 70 | Monitro’r Rhaglen | Blynyddol |
| Buddsoddiad preifat yn cyfateb i gefnogaeth gyhoeddus mewn arloesi neu weithrediadau ymchwil a datblygiad | EUR | 791,984 | Monitro’r Rhaglen | Blynyddol |
| Nifer y mentrau sy’n cael eu cefnogi i gyflwyno cynnyrch newydd i’r farchnad | Mentrau | 30 | Monitro’r Rhaglen | Blynyddol |
| Nifer y mentrau sy’n cael eu cefnogi i gyflwyno cynnyrch newydd i’r cwmni | Mentrau | 600 | Monitro’r Rhaglen | Blynyddol |
| Nifer y mentrau sy’n cymryd rhan mewn gweithrediadau ymchwil trawsffiniol, | Mentrau | 50 | Monitro’r Rhaglen | Blynyddol |

| Dangosydd | Uned Fesur | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell y Data | Amlder Adrodd |
|---|---|---|---|---|
| trawswladol neu ryngranbarthol | | | | |
| Nifer y sefydliadau ymchwil sy'n cymryd rhan mewn gweithrediadau ymchwil trawsffiniol, trawswladol neu ryngranbarthol | Sefydliadau | 45 | Monitro'r Rhaglen | Blynyddol |
| Nifer y rhwydweithiau arloesi trawsffiniol newydd neu well | Rhwydweithiau | 6 | Monitro'r Rhaglen | Blynyddol |
| Nifer y gweithrediadau peilot a gwblhawyd | Gweithrediadau peilot a gwblhawyd | 3 | Monitro'r Rhaglen | Blynyddol |

# 5 ECHEL BLAENORIAETH 2: ADDASIAD MÔR IWERDDON A CHYMUNEDAU ARFORDIROL I'R NEWID YN YR HINSAWDD

## Cyflwyniad

5.1 Ail Echel Blaenoriaeth (EB2) y Rhaglen yw 'Addasiad Môr Iwerddon a'r Cymunedau Arfordirol i'r Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn un o'r materion byd-eang presennol mwyaf arwyddocaol ac mae angen i'r ddwy ran o'r rhanbarth trawsffiniol leihau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr i helpu i gyfyngu ar y graddau o newid yn yr hinsawdd, tra hefyd yn addasu i'w effeithiau. Mae'r mater hwn eisoes yn cael effaith sylweddol ar draws ardal y Rhaglen ac ni ddisgwylir i hyn wneud dim ond cynyddu. Mae EB2 hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gwneud y gorau o'r cyfleoedd posibl a gyflwynir gan y newid yn yr hinsawdd.

5.2 Mae Echel Blaenoriaeth 2 yn cynnwys un Amcan Thematig (ATh) ac un Blaenoriaeth Fuddsoddi (BF) sy'n trosi yn un Amcan Penodol (AP). Y Flaenoriaeth fuddsoddi yw 5a sy'n canolbwyntio ar ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd. Mae'n bwysig sefydlu cysylltiadau clir rhwng effaith y newid yn yr hinsawdd ar swyddi a thwf ac ar les y rhai sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld ag ardal y Rhaglen ac ar Fôr Iwerddon.

5.3 Bydd yr Echel Blaenoriaeth hon yn ceisio sicrhau bod aliniad gyda Strategaeth Ymaddasu i Newid Hinsawdd yr UE, ac yn arbennig ei hamcanion o amgylch gweithgareddau 'Gwrthsefyll yr Hinsawdd' ar lefel yr UE, a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail gwybodaeth well yn ogystal â pholisïau cenedlaethol Cymru ac Iwerddon ynghylch ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd.

## *AMCAN PENODOL 2*: Cynyddu gallu a gwybodaeth am ymaddasu i'r Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Môr Iwerddon a'r cymunedau arfordirol

5.4 Mae ardal y Rhaglen yn profi effeithiau y newid yn yr hinsawdd eisoes ac mae'r rhain wedi effeithio ar gymdeithas, yr economi, busnesau a'r ecosystem yr ydym yn ei rhannu ac mae'r effeithiau hyn yn debygol o gynyddu a dwysáu.

5.5 Gan gofio y bydd yr effeithiau hyn yn digwydd ym Môr Iwerddon ac o'i amgylch, mae gwerth penodol mewn comisiynu ymchwil, rhannu ymchwil ac arbenigedd presennol, monitro effeithiau a chynyddu capasiti a gwybodaeth am ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd. Rhaid codi ymwybyddiaeth ar sail trawsffiniol gyda'r ffocws ar Fôr Iwerddon a chymunedau arfordirol y rhanbarth. Mae'r thema newid hinsawdd allan, yn rhaglen 2007-2013, yn dangos bod gwerth ychwanegol clir mewn gweithio ar sail trawsffiniol yn y mater hwn, yn enwedig o amgylch adeiladu gwybodaeth am effeithiau penodol ar Fôr Iwerddon a'r ymatebion priodol i'r rhain.

5.6 Ffocws allweddol y Flaenoriaeth hon fydd cynyddu gwybodaeth ynghylch ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd ar gyfer Môr Iwerddon a chymunedau'r arfordir. Yn y modd hwn, y canlyniadau y mae'r Flaenoriaeth hon yn ceisio eu sicrhau yw:

- Gwybodaeth well yng nghymunedau arfordirol Môr Iwerddon ynglŷn ag ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd, fydd yn gwella eu diogelwch, eu lles a'u hiechyd;
- Mwy o wybodaeth am effeithiau'r newid yn yr hinsawdd – rhai negyddol a rhai allai fod yn gadarnhaol – a mwy o allu i ymaddasu iddynt drwy ddefnyddio strategaethau trawsffiniol ac offer ymaddasu;
- Cynnydd mewn cydnabyddiaeth a'r gallu i elwa oddi wrth effeithiau cadarnhaol posibl y newid yn yr hinsawdd (e.e. cynnydd yn nifer y twristiaid ynghyd â thymor twristiaeth hirach oherwydd yr hafau cynhesach neu ostyngiad mewn salwch a marwolaethau sy'n gysylltiedig â thywydd oer);
- Mwy o allu i rannu gwybodaeth am y newid yn yr hinsawdd ar draws Môr Iwerddon a'r rhanbarth trawsffiniol.

5.7 Mae rhaglenni blaenorol wedi datblygu gweithrediadau arloesol, seiliedig ar Fôr Iwerddon, sydd wedi gwella ein gwybodaeth am ei ecosystemau, bioamrywiaeth a chynefinoedd. Nod allweddol ar gyfer y Rhaglen hon yw cadw a gwella'r amgylchedd morol ac arfordirol ar gyfer mwynhad cenedlaethau'r dyfodol yn wyneb effeithiau cynyddol y newid yn yr hinsawdd. Mae potensial twf glas sylweddol i Fôr Iwerddon ac mae cyfoethogi a diogelu'r adnodd pwysig hwn yn hanfodol ar gyfer datblygiad economaidd cynaliadwy.

5.8 Rhaid i gamau gweithredu ymdrin â'r heriau a amlinellwyd yn yr adran Strategaeth, nid yn unig drwy gyfrannu at y sylfaen wybodaeth o amgylch

ymaddasu i’r newid yn yr hinsawdd ond hefyd lledaenu'r wybodaeth honno i'r gymuned wyddonol ac i'r cymunedau yr effeithir arnynt. Felly dylid mesur cynnyrch nid yn unig o ran yr ymchwil a gynhaliwyd ond hefyd y mentrau yr ymgymerwyd â hwy i godi ymwybyddiaeth.

## Dangosydd Canlyniadau

| Dangosydd | Uned Fesur | Gwerth Cychwynnol | Blwyddyn gyntaf | Gwerth Targed[3] (2023) | Ffynhonnell y Data | Amlder Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefelau gwybodaeth am ymaddasu i’r newid yn yr hinsawdd ymhlith cymunedau a busnesau | I’w chadarnhau | I’w gadarnhau | 2015 | I’w gadarnhau | I’w chadarnhau – Data / Arolwg penodol i’r Rhaglen | 2015 (man cychwyn)<br>2018, 2021,<br>2023 (gwerth terfynol) |

5.9 Cesglir y data ar gyfer y dangosydd canlyniadau nail ai drwy arolwg omnibws busnesau neu unigolion neu arolwg penodol i’r Rhaglen, gyda’r man cychwyn a’r targed wedi eu pennu yn 2015. Caiff yr uned fesur ei phenderfynu gan yr arolwg/data fydd yn sail i’r man cychwyn. Caiff yr adran hon ei diweddaru wrth i’r gwaith fynd yn ei flaen ac wrth i fannau cychwyn gael eu pennu.

## Y Camau Gweithredu i’w cefnogi dan y flaenoriaeth fuddsoddi

5.10 A derbyn natur forwrol y ffin rhwng Iwerddon a Chymru, bydd y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd ar gyfer Môr Iwerddon a'r cymunedau arfordirol. Nod camau gweithredu fydd lleihau'r bylchau mewn gwybodaeth, trosglwyddo’r

[3] Gall gwerthoedd targed fod yn ansoddol neu feintiol.

wybodaeth honno ymhlith rhanddeiliaid a’i lledaenu ymhellach i’r cymunedau yr effeithir arnynt.

5.11 Bydd y mathau o gydweithredu trawsffiniol yn y Rhaglen yn cynnwys un neu fwy o'r cydrannau canlynol yn y tair Echel Blaenoriaeth:

- S**efydlu neu ddatblygu** rhwydwaith, llwyfan cydweithredu, porth neu strategaeth;
- **Trosglwyddo neu fabwysiadu** gwybodaeth, arbenigedd, technolegau neu arfer gorau;
- **Galluogi neu balmantu'r ffordd** ar gyfer buddsoddi mewn dylunio, datblygu, profi neu gyflenwi prosesau, cynnyrch, astudiaethau neu wasanaethau newydd – camau gweithredu peilot er enghraifft, modelau arddangos ac ati;
- **Buddsoddiadau ar raddfa fechan** lle mae gwerth ychwanegol trawsffiniol amlwg a chydymffurfiad ag amcanion y Rhaglen (e.e.buddsoddiad bychan perthnasol, megis prynu offer ar gyfer peilot neu i ddibenion arddangos, e-isadeiledd ac yn y blaen).

5.12 Mae enghreifftiau o fathau dangosol o’r camau gweithredu sydd i gael eu cefnogi dan yr Amcan Penodol hwn yn cynnwys:

- Darparu mecanweithiau a llwyfannau ar gyfer rhannu gwybodaeth am risgiau a chyfleoedd, fydd yn deillio o’r newid yn yr hinsawdd, rhwng rhanddeiliaid yn Iwerddon a Chymru. Gallai’r rhain gynnwys pyrth ar y we, gweithdai / seminarau ac yn y blaen;
- Ymchwil a gomisiynwyd ar y cyd lle mae bylchau clir yn y dystiolaeth, seiliedig ar effeithiau cyffredin y newid yn yr hinsawdd ar Fôr Iwerddon a’r cymunedau arfordirol;
- Datblygu offer asesu fydd yn mesur effaith, risg a gwendid Môr Iwerddon a’r cymunedau arfordirol yn wyneb y newid yn yr hinsawdd – gan gynnwys llifogydd – ac a all gynyddu’r sylfaen wybodaeth a chefnogi prosesau gwneud penderfyniadau cyrff sector cyhoeddus a’r cyhoedd yn gyffredinol;
- Trosglwyddo gwybodaeth, arbenigedd ac arferion gorau ynghylch mesurau ymaddasu rhwng dau ranbarth ardal y Rhaglen. Gallai’r rhain gynnwys canllawiau ‘sut i’, cronfeydd data arferion gorau, gweithdai / seminarau / cynadleddau, pyrth ar y we;

- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth bellach o amgylchedd Môr Iwerddon gan gynnwys ei fio-amrywiaeth, ei gynefinoedd a'i rywogaethau a'i wendid yn wyneb y newid yn yr hinsawdd – gan ddefnyddio arbenigedd morol a gwyddonol a rennir mewn sefydliadau AU/AB yn y rhanbarth i ddatblygu strategaethau / modelau ymaddasu;
- Datblygu offer ar y cyd i ysgogi cyfnewid gwybodaeth ac arferion gorau ar draws y ffin gyda golwg ar ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd ymhlith cymunedau arfordirol er mwyn dylanwadu ar newid ymddygiad (e.e. pyrth ar y we yn cynnwys esiamplau o arferion da, cylchlythyrau ac adroddiadau blynyddol, seminarau, cynadleddau a chanllawiau arfer gorau);
- Datblygu gweithrediadau peilot trawsffiniol er mwyn codi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth am ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd;
- Trosglwyddo gwybodaeth, arbenigedd ac arferion gorau ynghylch datrysiadau seiliedig ar natur i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd (e.e. mesurau naturiol i gronni dŵr er mwyn rheoli ac atal llifogydd).

### *Adnabod y prif grwpiau targed*

- Cyrff statudol a sefydliadau (gan gynnwys llywodraeth leol a rhanbarthol);
- Sefydliadau addysg uwch a sefydliadau ymchwil;
- Cyrff y trydydd sector;
- Busnesau gan gynnwys busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol.

### *Y tiriogaethau penodol a dargedir*

**5.13** A derbyn natur forwrol y ffin rhwng Iwerddon a Chymru, canolbwyntir ar gynyddu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu i'r newid ar gyfer Môr Iwerddon a chymunedau ac amgylcheddau morol ac arfordirol. Fodd bynnag, gellir teimlo effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar draws ardal y Rhaglen yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys y berfeddwlad, ac felly ni ellir cyfyngu'r camau gweithredu hyn yn gyfan gwbl i'r môr a'r arfordir.

### *Adnabod y prif fuddiolwyr*

5.14 Mae gan Raglen Iwerddon Cymru hanes o hwyluso perthynas waith yn llwyddiannus rhwng nifer fawr o sefydliadau gan gynnwys Sefydliadau Addysg

Uwch, adrannau'r Llywodraeth, cyrff cyhoeddus a chyrff yn y trydydd sector. Dylai'r math hwn o ymgysylltiad trawsffiniol esgor ar fuddion a chynnyrch pendant. Dylid gweld cydweithredu trawsffiniol felly fel cyfrwng i gychwyn a sicrhau newid. Er mwyn cymryd rhan, rhaid i gyrff ddangos sut y byddant yn cefnogi cydweithredu rhwng y cyrff sy'n cyfranogi a chynhyrchu deilliannau pendant.

- Sefydliadau Addysg uwch a sefydliadau ymchwil;
- Cyrff yn y sectorau gwyrdd a glas;
- Sefydliadau a chyrff yn y sector cyhoeddus;
- Cyrff yn y trydydd sector sy'n gweithio ar yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd;
- Busnesau, sefydliadau busnes a rhwydweithiau.

## Yr egwyddorion arweiniol ar gyfer dethol gweithrediadau

5.15 Caiff y gweithrediadau yr ymgymerir â hwy er mwyn cyflawni'r Amcan Penodol hwn eu dethol ar sail pum egwyddor allweddol:

- **Ychwanegedd trawsffiniol**: dylai gweithrediadau ganolbwyntio'n glir ar gymryd camau gweithredu trawsffiniol ar y cyd a rhaid iddynt ddangos ychwanegedd y dull trawsffiniol o'i gymharu â dulliau rhanbarthol, cenedlaethol, rhyngranbarthol neu drawswladol;

- **Cydlyniant allanol**: mae croeso i weithrediadau sy'n adeiladu ar y canlyniadau a grëwyd gan raglenni Ewropeaidd eraill (megis y Rhaglen LIFE). Dylid darparu esboniad o synergeddau a rhaid sicrhau na ddyblygir gweithrediadau presennol neu flaenorol a gafodd eu cynnal dan raglenni Ewropeaidd eraill neu gyllid cenedlaethol. Dylai gweithrediadau – lle bo'n berthnasol - geisio alinio â blaenoriaethau perthnasol Cynllun Gweithredu'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Strategaeth Forwrol yn Ardal yr Iwerydd. Yn achos Strategaeth Ardal yr Iwerydd, bydd awdurdodau'r rhaglen yn ymgynghori â'r adrannau hynny yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon sy'n ymwneud ag olrhain datblygiad y Strategaeth i geisio cyngor ynghylch perthnasedd a chydlyniant gweithrediadau sy'n dod i'r amlwg;

- **Perthnasedd traws-sector**: Dylai partneriaethau gynnwys cymysgedd amrywiol o randdeiliaid (er enghraifft, mentrau, ymchwilwyr, sefydliadau

addysg, cyrff hyfforddi, gwneuthurwyr polisi, buddsoddwyr preifat, defnyddwyr terfynol);

- **Ffitio gyda strategaethau lefel uchel cenedlaethol a rhyngwladol**: bydd angen integreiddio'r camau gweithredu a gymerir dan y Rhaglen hon yn ofalus gyda chamau gweithredu cenedlaethol a rhyngwladol ehangach;
- **Dull seiliedig ar ganlyniad**: dylai gweithrediadau fod yn anelu tuag at ddatblygu a gweithredu datrysiadau gwirioneddol (technolegol, cyfundrefnol, ariannol, rheoliadol a sefydliadol) fydd yn arwain at gynnydd yn ymaddasiad ardal y Rhaglen i'r newid yn yr hinsawdd;
- ***Er mwyn gallu optimeiddio casglu a chymathu canlyniadau'r Rhaglen, bydd yn ofynnol i bob gweithrediad ddisgrifio sut y mae'n bwriadu cyfalafu'r cynnyrch a briodolir i'w weithrediadau a sut y bydd y cyfalafu hwn yn cyfrannu at yr Amcan Penodol a'r Dangosydd Canlyniad o fewn cyfnod y Rhaglen***. Yn yr Echel Blaenoriaeth hon, er enghraifft, gofynnir i weithrediadau esbonio sut y gellid cyfalafu'r gwaith o gasglu a lledaenu gwybodaeth, adeiladu capasiti a datblygu offer a pheilotiaid i gynyddu ymaddasiad Môr Iwerddon a'r cymunedau arfordirol i'r newid yn yr hinsawdd. Bydd gweithdrefnau manwl wedi cael eu gwneud yn rhan annatod o gynllun y canllawiau gweithredu ar gyfer y Rhaglen, fydd yn cynnwys gofyniad i adeiladu cyfalafu i mewn i werthusiad y gweithrediadau gan gynnwys ffocws ar fanteision tymor byr, canolig a hirach. Bydd y Rhaglen yn monitro gweithrediad y cynlluniau hyn;
- Cynnwys egwyddorion llorweddol datblygiad cynaliadwy a chyfle cyfartal / peidio â gwahaniaethu yn y meini prawf dethol;
- Ni chaiff gweithrediadau, sy'n canolbwyntio ar gydweithredu academaidd neu ymchwil sylfaenol yn unig, eu hystyried fel rhan o'r rhaglen hon;
- Gellir cynnwys gweithgaredd sy'n canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant a gwella sgiliau fel elfen o weithrediad, lle mae'n ategu ac yn cefnogi prif weithgaredd y gweithrediad.

## Dangosyddion Cynnyrch

| Dangosydd | Uned Fesur | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell y data | Amlder Adrodd |
|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiad cynhyrchiol: nifer o sefydliadau ymchwil yn cymryd rhan mewn gweithrediadau ymchwil trawsffiniol, trawswladol neu ryngranbarthol | Sefydliadau | 10 | Monitro'r Rhaglen | Blynyddol |
| Nifer y gweithrediadau peilot a gwblhawyd | Gweithrediadau peilot a gwblhawyd | 2 | Monitro'r Rhaglen | Blynyddol |
| Nifer y mentrau codi ymwybyddiaeth newydd oedd yn targedu cymunedau arfordirol | Mentrau codi ymwybyddiaeth | 60 | Monitro'r Rhaglen | Blynyddol |
| Nifer y sefydliadau sy'n cydweithredu I wella'r amgylchedd morol ac arfordirol | Sefydliadau | 24 | Monitro'r Rhaglen | Blynyddol |

# 6 ECHEL BLAENORIAETH 3: ADNODDAU A THREFTADAETH DDIWYLLIANNOL A NATURIOL

## Cyflwyniad

6.1 Adnoddau a Threftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol yw trydedd Echel Blaenoriaeth (EB3) y Rhaglen. Mae ardal y Rhaglen yn canolbwyntio ar y cymunedau arfordirol o amgylch Môr Iwerddon ac mae ganddi botensial enfawr o ran y dreftadaeth a'r asedau diwylliannol a naturiol y gall eu defnyddio, yn enwedig ei chymeriad morwrol ac arfordirol. Mae pwysigrwydd diwylliant a threftadaeth yn cael eu cydnabod yn rhwydd mewn polisïau Cymreig, Gwyddelig ac Ewropeaidd, a chydnabyddir yn eang hefyd, ar bob lefel, fanteision economaidd-gymdeithasol buddsoddi yn y maes hwn.

6.2 Dylanwadir ar Flaenoriaeth 3 gan lwyddiant gweithrediadau yn Rhaglen 2007-13, oedd yn mynd i'r afael â'r amgylchedd morol. Mae'n canolbwyntio ar adfywio cymunedol o safbwynt swyddi a thwf; ac mae ei chylch gorchwyl amgylcheddol yn canolbwyntio ar y gymuned. Mae'r Flaenoriaeth yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r adnoddau o ran diwylliant, treftadaeth ac adnoddau naturiol yn ardal y Rhaglen mewn ffordd gynaliadwy, a'r potensial ar gyfer twf gwyrdd a glas, yn canoli ar yr ased a rennir sef Môr Iwerddon. Nod EB3 yw manteisio ar gryfderau'r dreftadaeth naturiol a diwylliannol unigryw a rennir a chymeriad morwrol ac arfordirol ardal y Rhaglen er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr i'r cymunedau arfordirol ac felly sicrhau twf economaidd cynaliadwy. Bydd cefnogaeth neilltuol ar gael i fentrau micro gan mai'r rhain yw'r busnesau sylfaenol yn y sectorau sy'n ymwneud â threftadaeth ddiwylliannol a naturiol.

6.3 Mae'n ceisio ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu twf gwyrdd a glas ar y cyd i wneud y rhanbarth yn lle mwy deniadol i fyw, adleoli, gweithio ac ymweld drwy ddiogelu a manteisio ar gryfderau ardal y Rhaglen, ei threftadaeth naturiol, ei threftadaeth ddiwylliannol a rennir a'i chymeriad morwrol. Yn benodol, bwriad hyn yw gwneud ardal y Rhaglen yn:

- *Lle mwy deniadol i fyw* – sicrhau bod ardal y Rhaglen yn lle y gall pobl fyw bywydau iach, egnïol a chynhyrchiol a lle mae ansawdd bywyd yn uchel;
- *Lle mwy deniadol i adleoli iddo* – sicrhau bod ardal y Rhaglen yn lle y mae pobl yn dewis adleoli iddo. Mae hyn yn cysylltu'n agos â sicrhau bod ardal y Rhaglen yn lle deniadol i fyw a gweithio;
- *Lle mwy deniadol i weithio* – sicrhau bod ardal y Rhaglen yn lle y mae busnesau yn dewis buddsoddi, neu lle y gall entrepreneuriaid lleol ffynnu,

lle mae gan bobl amrywiaeth o gyfleoedd gyrfaol ac yn cael eu hannog a’u cynorthwyo i gyrraedd eu llawn botensial;

- *Lle mwy deniadol i ymweld ag ef* – sicrhau bod ardal y Rhaglen yn lle y mae ar bobl eisiau teithio iddo a'i fwynhau, drwy gefnogi'r economi leol a lle mae treftadaeth yr ardal a'r diwylliant a rennir yn cael ei ddathlu a’i gynnal.

6.4 O ystyried adnoddau cyfyngedig y Rhaglen a'r amrywiaeth o ffactorau sy'n cyfrannu at wneud ardal y Rhaglen yn lle deniadol i fyw a gweithio, bydd y Flaenoriaeth hon yn canolbwyntio’n benodol ar sut i wneud yr ardal yn lle mwy deniadol i ymweld.

6.5 Bydd y Flaenoriaeth hon yn cynnwys ymgysylltu cymunedol er mwyn sicrhau manteision economaidd i economïau lleol. Ni fydd yn cynnwys cyllid i gymunedau ddatblygu pecyn o weithrediadau o dan arweiniad y gymuned a strategaethau datblygu lleol. Mae EB3 yn cynnwys un Amcan Thematig (ATh) ac un flaenoriaeth fuddsoddi (BF) sy'n trosi yn un Amcan Penodol (AP). Y flaenoriaeth fuddsoddi yw 6c, sy'n canolbwyntio ar y lle y gellir ennill y gwerth mwyaf drwy fanteisio’n gynaliadwy ar dreftadaeth ac adnoddau diwylliannol a naturiol. Er y bydd yn canolbwyntio ar dwf economaidd, bydd y manteision cymdeithasol fydd yn dilyn hefyd yn ffurfio cydran allweddol o'r Flaenoriaeth hon.

### Diffiniad o ’Dreftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol’

6.6 Mae’r Comisiwn Ewropeaidd yn disgrifio treftadaeth ddiwylliannol fel:

> ‘‘*Mosaig cyfoethog ac amrywiol o fynegiant diwylliannol a chreadigol, a etifeddwyd oddi wrth genedlaethau'r gorffennol, sy’n cynnwys safleoedd naturiol, adeiledig ac archeolegol yn ogystal ag amgueddfeydd, henebion, celfyddyd a dinasoedd hanesyddol.*
>
> *Mae'n cynnwys gweithiau llenyddol, cerddorol, a chlyweledol, ynghyd â gwybodaeth, arferion a thraddodiadau dinasyddion Ewrop.*’[4]

---

[4] http://ec.europa.eu/culture/policy/culture-policies/cultural-heritage_en.htm

6.7 Ymhelaethir ar hyn ac fe'i rhennir yn gategorïau gwahanol gan ddiffiniad Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) o dreftadaeth ddiwylliannol, sydd hefyd yn diffinio treftadaeth naturiol.

Treftadaeth ddiwylliannol:

- Treftadaeth ddiwylliannol ddiriaethol:
  - treftadaeth ddiwylliannol symudol (lluniau, cerfluniau, darnau arian, llawysgrifau)
  - treftadaeth ddiwylliannol na ellir ei symud (henebion, safleoedd archeolegol, ac yn y blaen)
  - treftadaeth ddiwylliannol danddwr (llongddrylliadau, adfeilion a dinasoedd tanddwr)
- Treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol: traddodiadau llafar, celfyddydau perfformio, defodau

Treftadaeth naturiol**:**

- Safleoedd naturiol gydag agweddau diwylliannol megis tirweddau diwylliannol, ffurfiannau ffisegol, biolegol neu ddaearegol.[5]

6.8 Defnyddir y ddau ddiffiniad yn sail i'r dull a fabwysiedir gan y Rhaglen hon.

## Diffiniad o 'Gymuned Arfordirol'

6.9 Yn ardal y Rhaglen, mae cymuned arfordirol yn disgrifio unrhyw gymuned o fewn awdurdod lleol sydd ag arfordir. Yng Nghymru, mae hyn yn cau Wrecsam allan. Yn Iwerddon, mae hyn yn cau Tipperary, Carlow, Kildare a Kilkenny allan.

---

[5] Diffiniad UNESCO - http://www.unesco.org/new/en/culture/themes/illicit-trafficking-of-cultural-property/unesco-database-of-national-cultural-heritage-laws/frequently-asked-questions/definition-of-the-cultural-heritage/

## *AMCAN PENODOL 3*: Gwireddu potensial asedau naturiol a diwylliannol mewn ffordd gynaliadwy drwy gynyddu niferoedd ymwelwyr i'r cymunedau arfordirol yn ardal y Rhaglen

6.10 Er bod y cyd-ddadansoddiad economaidd-gymdeithasol yn amlygu cysylltiadau clir sydd wedi'u canfod rhwng yr economi a thwristiaeth, treftadaeth a'r amgylchedd naturiol, nid yw ardal y Rhaglen eto yn cymryd mantais lawn o'r holl asedau a'r cyfleoedd unigryw hyn ac yn sicr mae lle i ymdrin â hyn ar y cyd.

6.11 Gallai ardaloedd arfordirol fod yn ddewis gyrchfan i ymwelwyr o bob cwr o'r byd a gwneud cyfraniad mawr at ffyniant economaidd cynaliadwy yn arbennig drwy dwf gwyrdd a glas. Dangosodd Rhaglen 2007-2013 y gwerth y gellir ei ychwanegu drwy weithio ar sail trawsffiniol ar faterion yn ymwneud â'r amgylchedd morol, a mynd i'r afael ag adfywio a grymuso cymunedol drwy'r amgylchedd. Ar gyfer y Rhaglen hon rhoddir y pwyslais ar ardaloedd amgylcheddol arfordirol a morol lle y gellir sicrhau'r gwerth ychwanegol mwyaf. Mae gan yr ardaloedd hyn gryn botensial i ddefnyddio eu treftadaeth a'u hasedau naturiol a diwylliannol – gan gynnwys Môr Iwerddon – i ddod yn lleoedd mwy deniadol i ymweld â hwy, a chyflawni twf economaidd cynaliadwy drwy gynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr.

6.12 Bydd y Flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar y modd y gellir defnyddio'r dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol fel offeryn i ysgogi twf economaidd drwy wneud ardal y Rhaglen yn lle mwy deniadol i ymwelwyr. Bydd y pwyslais ar sut y gellir defnyddio Môr Iwerddon i'r diben hwn a sut y gellir manteisio ar dwf gwyrdd a glas i ategu twf economaidd.

6.13 Bydd y Flaenoriaeth yn ymdrin â'r angen i sicrhau cydbwysedd rhwng gwella'r amgylchedd ar y naill law a budd economaidd ar y llall a datblygu cyfleoedd ar gyfer twf glas a gynigir gan Fôr Iwerddon. Bydd cymorth arbennig ar gael ar gyfer mentrau micro gan mai'r rhain yw'r busnesau sylfaenol yn y sectorau hyn.

6.14 Mae cymunedau cryf, cynaliadwy yn bwydo i mewn i ranbarthau ffyniannus sy'n gallu denu datblygiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach. Mae adeiladu cymunedau lleol iach yn golygu gwneud y gorau o'u hasedau unigryw. Hefyd bydd elfen o dwf cynhwysol yn gwau drwy'r Flaenoriaeth hon a bydd yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol wrth ddatblygu a hybu datblygiad cynaliadwy sy'n gymdeithasol gynhwysol. Er bod pwysigrwydd twf economaidd yn sylweddol,

mae hefyd yn bwysig cofio mai’r ymyriadau hynny sydd wedi eu hanelu at ddarparu buddion cymdeithasol sy'n aml yn gallu gwneud ardal yn fwy deniadol ac felly gynyddu ei photensial economaidd. Gall camau gweithredu ar y cyd i gysylltu a chryfhau cymunedau, gan ddefnyddio asedau naturiol Môr Iwerddon a’i arfordir, weithredu fel hwyluswyr i roi ymdeimlad o rymuso a hunaniaeth, datblygu gwasanaethau mewn cymunedau sy'n wynebu rhwystrau a achosir gan fod ar yr ymylon ac, wrth wneud hynny, gwneud yr ardaloedd hyn yn fwy deniadol fel lleoedd i ymweld â hwy.

6.15 Y canlyniadau y mae'r Flaenoriaeth hon yn ceisio eu cyflawni yw:

- Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i gymunedau arfordirol y rhanbarth trawsffiniol drwy ddefnyddio eu hasedau naturiol a diwylliannol mewn ffordd gynaliadwy;
- Cynnydd yng ngallu cymunedau arfordirol i ddefnyddio eu treftadaeth naturiol a diwylliannol fel sbardun i dwf economaidd.

Defnyddir data cymaradwy o’r ddau ranbarth, y gwerth targed yw cynnydd o 2%. O ystyried graddfa Rhaglen Iwerddon Cymru, disgwylir y bydd yn cyfrannu at gynnydd o 0.1%.

## Dangosydd canlyniadau

| Dangosydd | Uned Fesur | Gwerth cychwynnol | Blwyddyn gyntaf | Gwerth targed (2023) | Ffynhonnell y data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr ymwelwyr tramor i gymunedau arfordirol ardal y Rhaglen | Nifer yr ymwelwyr tramor | 6,902,000 | 2012 | 7,040,040 | Yn Iwerddon mae’r data hwn ar gael ar gyfer 2012 yn y ‘*Regional Tourism Performance in 2012*’ a gyhoeddwyd gan Failte Iwerddon ym mis Tachwedd 2013. Yng Nghymru ceir y wybodaeth hon gan Lywodraeth Cymru | Blynyddol |

## Camau i'w cefnogi o dan y flaenoriaeth fuddsoddi

6.17 Bydd y flaenoriaeth hon yn anelu at gynyddu nifer yr ymwelwyr a gwella twf economaidd cynaliadwy drwy gamau cydweithredol trawsffiniol sy'n cefnogi, cynnal, cadw a hybu treftadaeth ac asedau diwylliannol a naturiol unigryw cymunedau arfordirol y Rhaglen. Defnyddir y rhain i gefnogi a gwella'r economi leol drwy gamau sy'n canolbwyntio ar gefnogi ac amrywio'r sector twristiaeth. Bydd camau gweithredu sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac felly yn peri bod ardal y rhaglen yn lle mwy deniadol i ymwelwyr hefyd yn elfen allweddol o'r flaenoriaeth hon. Hefyd anogir camau gweithredu sy'n grymuso cymunedau i gyflawni cadwraeth, datblygiad ac adfywiad yn eu cymunedau eu hunain drwy ymelwa mewn ffordd gynaliadwy ar y dreftadaeth a'r asedau naturiol a diwylliannol sydd ar gael iddynt i wneud ardal y Rhaglen yn fwy deniadol i ymweld â hi.

6.18 Ymhellach, bydd ystyried agweddau sy’n ymwneud â’r amgylchedd a chymdeithas o fewn yr Echel Blaenoriaeth hon o fudd i'r Rhaglen gyda synergeddau ychwanegol, e.e. eco-arloesi, twf gwyrdd ac arloesi cymdeithasol.

6.19 Bydd y mathau o gydweithredu trawsffiniol yn y Rhaglen yn cynnwys un neu fwy o'r cydrannau canlynol ym mhob un o’r tair Echel Blaenoriaeth:

- **Sefydlu neu ddatblygu** rhwydwaith, llwyfan cydweithredu, porth neu strategaeth;
- **Trosglwyddo neu fabwysiadu** gwybodaeth, arbenigedd, technolegau neu arfer gorau;
- **Galluogi neu baratoi'r ffordd** ar gyfer buddsoddi mewn dylunio, datblygu, profi neu gyflawni prosesau, cynnyrch, astudiaethau neu wasanaethau newydd – er enghraifft, camau gweithredu peilot, modelau arddangos ac yn y blaen;
- **Buddsoddiadau ar raddfa fechan** lle mae gwerth ychwanegol trawsffiniol amlwg a chydymffurfiad ag amcanion y Rhaglen (e.e. buddsoddiad perthnasol ar raddfa fechan, megis prynu offer i ddibenion peilot neu arddangos, e-isadeiledd ac yn y blaen).

6.20 Mae enghreifftiau o fathau dangosol o gamau gweithredu trawsffiniol i'w cefnogi o dan yr Amcan Penodol hwn yn cynnwys:

- Hybu a datblygu cyfleoedd busnes trawsffiniol sy'n cymryd mantais lawn ar reoli adnoddau naturiol a diwylliannol mewn ffordd gynaliadwy, fel

atyniadau twristaidd arbenigol, gan gynnwys atyniadau arfordirol a diwylliannol a safleoedd treftadaeth forwrol – gan gynnwys dulliau marchnata trawsffiniol; a chynnal digwyddiadau trawsffiniol a mesurau cyfathrebu i gynyddu diddordeb;

- Dylunio a gweithredu a datblygu ar y cyd strategaethau a mentrau datblygu twristiaeth forwrol drawsffiniol, sy'n seiliedig ar y môr ac asedau treftadaeth – megis cymorth i dwristiaeth ar y môr a threftadaeth forwrol;

- Hyrwyddo cyfleoedd i eco-dwristiaeth ar y cyd, yn enwedig defnyddio'r asedau naturiol a diwylliannol mewn ffordd gynaliadwy ar gyfer mentrau twristiaeth mewn ardaloedd arfordirol;

- Cyd-frandio a marchnata ein hasedau naturiol a diwylliannol i greu cyfleoedd i gynyddu nifer yr ymwelwyr i gymunedau ac atyniadau arfordirol gan gynnwys hybu gweithgareddau hamdden morol e.e. hwylio, morio, canŵio a gweithgareddau eraill seiliedig ar ddŵr;

- Defnyddio'r amgylchedd arfordirol a morol fel galluogwr i hyrwyddo byw'n iach drwy weithgaredd awyr agored;

- Cefnogi gweithgarwch entrepreneuraidd trawsffiniol sy'n cynnwys busnesau bach a chanolig a mentrau micro sy’n ymroi i hybu gweithgareddau hamdden, treftadaeth a diwydiannau traddodiadol, diwylliannol a chreadigol sydd wedi eu lleoli ar hyd yr arfordir;

- Gwella'r amgylchedd arfordirol a morol i wneud yr ardal yn lle mwy deniadol i ymweld ag ef. Gall hyn gynnwys gweithgareddau megis cynnal statws baner las traethau, ymgysylltu a chreu capasiti mewn cymunedau i ddiogelu eu treftadaeth naturiol a diwylliannol a syniadau ynghylch datblygiad cymunedol, amgylcheddol ac economaidd arloesol; cymorth i ddatblygu a hyrwyddo gweithgareddau ar y cyd i wella'r amgylchedd; a phartneriaethau trawsffiniol rhwng rhanddeiliaid ymchwil a'r gymuned;

- Cynllunio datrysiadau arloesol ar y cyd sy’n gwella swyddi ar gyfer adfywio cymunedau'r arfordir ac sy'n seiliedig ar dwristiaeth treftadaeth naturiol a diwylliannol – lle y wynebir problemau cyffredin neu lle mae cyfleoedd cyffredin ar gael ar ddwy ochr Môr Iwerddon.

6.21 Ni fydd Echel Blaenoriaeth 3 yn cyllido cymunedau i weithredu strategaethau datblygu lleol.

### *Adnabod y prif grwpiau targed*

- Mentrau cymdeithasol;
- BBaChau sy'n ymwneud â'r sector twristiaeth mewn cymunedau arfordirol;
- Sefydliadau trydydd sector;
- Grwpiau a chymdeithasau datblygu cymunedol;
- Sefydliadau amgylcheddol.

### *Tiriogaethau penodol a dargedir*

6.22 O gofio natur forol y ffin rhwng Iwerddon a Chymru, bydd ffocws ar yr amgylcheddau arfordirol a morol gan dalu sylw dyledus i agosrwydd llawer o ardal y Rhaglen at yr arfordir.

6.23 O fewn ardal y Rhaglen, mae cymuned arfordirol yn disgrifio unrhyw gymuned mewn awdurdod lleol sydd ag arfordir. Yng Nghymru, mae hyn yn cau Wrecsam allan. Yn Iwerddon, mae hyn yn cau Tipperary, Carlow, Kildare a Kilkenny allan.

### *Adnabod y prif fuddiolwyr*

6.24 Y prif fuddiolwyr fydd â rhan uniongyrchol yn yr ymyriadau o dan yr Amcan Penodol hwn yw:

- Cyrff y Llywodraeth (lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol);
- Rhanddeiliaid cymdeithas sifil (er enghraifft, sefydliadau trydydd sector megis cyrff anllywodraethol a sefydliadau di-elw);
- Sefydliadau addysg a gwybodaeth -, gan gynnwys sefydliadau ymchwil preifat neu led-gyhoeddus;
- Mentrau – gan gynnwys busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol;
- Grwpiau a chymdeithasau datblygu cymunedol.

## Egwyddorion arweiniol ar gyfer dethol gweithrediadau

6.25 Caiff y gweithrediadau yr ymgymerir â hwy i gyflawni’r amcan penodol (AP) hwn eu dewis ar sail yr egwyddorion allweddol canlynol:

- **Ychwanegedd trawsffiniol**: dylai gweithrediadau ganolbwyntio’n glir ar gymryd camau gweithredu trawsffiniol ar y cyd a rhaid iddynt ddangos

ychwanegedd y dull trawsffiniol o'i gymharu â dulliau rhanbarthol, cenedlaethol, rhyngranbarthol neu drawswladol;

- **Cydlyniant allanol**: mae croeso i weithrediadau sy'n adeiladu ar y canlyniadau a grëwyd gan raglenni Ewropeaidd eraill (megis Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig). Dylid darparu esboniad o synergeddau a rhaid sicrhau na ddyblygir gweithrediadau presennol neu flaenorol a gafodd eu cynnal dan raglenni Ewropeaidd eraill neu gyllid cenedlaethol. Dylai gweithrediadau – lle bo'n berthnasol - geisio alinio â blaenoriaethau perthnasol Cynllun Gweithredu'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Strategaeth Forwrol yn Ardal yr Iwerydd. Yn achos Strategaeth Ardal yr Iwerydd, bydd awdurdodau'r rhaglen yn ymgynghori â'r adrannau hynny yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon sy'n ymwneud ag olrhain datblygiad y Strategaeth i ofyn am gyngor ynghylch perthnasedd a chydlyniant gweithrediadau sy'n dod i'r amlwg;
- Dylid ystyried y Fframwaith Gweithredu â Blaenoriaeth ar gyfer rhaglenni Natura 2000 a LIFE;
- **Perthnasedd traws-sector**: dylai partneriaethau gynnwys cymysgedd amrywiol o randdeiliaid (er enghraifft, mentrau, ymchwilwyr, sefydliadau addysg, cyrff hyfforddi, llunwyr polisi, buddsoddwyr preifat, defnyddwyr);
- **Dull seiliedig ar ganlyniadau**: dylai gweithrediadau fod yn anelu tuag at ddefnyddio'r dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol i sicrhau buddion economaidd gwirioneddol. Ni fydd gweithrediadau sy'n canolbwyntio ar gyfnewidiadau diwylliannol yn unig, heb ganlyniad economaidd clir, yn gymwys;
- Mae Cytundeb Partneriaeth y DU yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru hefyd yn disgwyl i'r dull LEADER barhau i gynnwys elfen o gydweithredu a dysgu rhyngwladol o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020. Bydd y Rhaglen yn sicrhau cyfatebolrwydd ac osgoi dyblygu unrhyw weithgareddau sy'n cael eu cefnogi yn y cyd-destun hwn;
- ***Er mwyn gallu optimeiddio casglu a chymathu canlyniadau'r Rhaglen, bydd yn ofynnol i bob gweithrediad ddisgrifio sut y mae'n bwriadu cyfalafu'r cynnyrch a briodolir i'w weithrediadau a sut y bydd y cyfalafu hwn yn cyfrannu at yr Amcan Penodol a'r dangosydd canlyniad o fewn cyfnod y Rhaglen***. Yn yr Echel Blaenoriaeth hon, er enghraifft, gofynnir i weithrediadau esbonio sut y maent yn bwriadu datblygu'r wybodaeth a gyfnewidiwyd, yr arfer gorau a

nodwyd a’r peilotiaid a brofwyd a defnyddio asedau diwylliannol a naturiol i ddenu ymwelwyr i’r rhanbarth trawsffiniol. Bydd gweithdrefnau manwl wedi cael eu plannu yng nghynllun y canllawiau gweithredu ar gyfer y Rhaglen, fydd yn cynnwys gofyniad i adeiladu cyfalafu i mewn i werthusiad y gweithrediadau gan gynnwys ffocws ar fanteision tymor byr, canolig a hirach. Bydd y Rhaglen yn monitro gweithrediad y cynlluniau hyn;

- Cynnwys egwyddorion llorweddol datblygiad cynaliadwy a chyfle cyfartal / peidio â gwahaniaethu yn y meini prawf dethol;
- Ni chaiff digwyddiadau untro eu cyllido ond os byddant yn rhan o weithgaredd ehangach y gweithrediad. Bydd yr Awdurdod Rheoli hefyd yn sicrhau eu bod wedi eu cynnwys dan Erthygl 5 o Reoliad (UE) Rhif 1301/2013 Senedd Ewrop a’r Cygnor;
- Gellir cynnwys gweithgaredd sy’n canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant a gwella sgiliau fel elfen o weithrediad, lle mae'n ategu ac yn cefnogi prif weithgaredd y gweithrediad.

## Dangosyddion Cynnyrch

| Dangosydd | Uned Fesur | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell y data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiad cynhyrchiol: Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gefnogir | Cyfateb i lawn amser | 10.00 | Monitro’r Rhaglen | Blynyddol |
| Nifer y mentrau peilot a gwblhawyd | Mentrau peilot a gwblhawyd | 2.00 | Monitro’r Rhaglen | Blynyddol |
| Nifer y rhwydweithiau twristiaeth newydd sy’n hybu asedau diwylliannol, naturiol neu dreftadaeth. | Rhwydweithiau trawsffiniol | 12.00 | Monitro’r Rhaglen | Blynyddol |
| Nifer y cymunedau arfordirol sy’n cymryd rhan mewn cydweithredu | Cymunedau | 20.00 | Monitro’r Rhaglen | Blynyddol |

| Dangosydd | Uned Fesur | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell y data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|
| trawsffiniol o gwmpas twristiaeth ddiwylliannol, naturiol neu dreftadaeth | | | | |

# 7 ECHEL BLAENORIAETH 4: CYMORTH TECHNEGOL

## Cyflwyniad

7.1 Mae’r camau sydd i'w cefnogi gan Gymorth Technegol (CT), a amlinellir isod, yn adeiladu ac yn dysgu gwersi oddi wrth weithredu gweithgarwch yn Rhaglen Iwerddon Cymru 2007-2013.

7.2 Mae Cymorth Technegol yn adnodd hanfodol i gefnogi rhedeg y Rhaglen yn effeithiol.

## *AMCAN PENODOL 4*: Manteisio ar arfer gorau a dysgu gwersi oddi wrth werthusiad y gweithdrefnau presennol i sicrhau bod Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020 yn cael ei rheoli’n effeithlon ac yn effeithiol

## Camau gweithredu i gael eu cefnogi

7.1 Nid ychwanegwyd dangosydd canlyniadau gan na fydd cefnogaeth yr Undeb ar gyfer cymorth technegol yn fwy na €15 miliwn.

7.2 Mae Cymorth Technegol yn adnodd hanfodol ar gyfer cyflawni’r Rhaglen yn effeithiol. Bydd costau cyflog, fel gyda Rhaglen 2007-13, yn ffurfio rhan bwysig wrth ddarparu gweithgarwch a ariennir gan CT ar gyfer y Gyd-ysgrifenyddiaeth, yr Awdurdod Rheoli, yr Awdurdod Archwilio, yr Awdurdod Ardystio a phartneriaid cyflenwi ehangach. Mae Awdurdodau'r Rhaglen eisoes wedi ystyried profiad y gorffennol, arfer gorau a gwersi a ddysgwyd oddi wrth Raglen 2007-2013 a byddant yn defnyddio hyn i grisialu eu dull o reoli y modd y gweithredir Rhaglen 2014-2020. Bydd y Rhaglen yn rhoi mesurau ar waith fydd yn cynnwys dull diwygiedig o werthuso gweithrediad, gan gynnwys cyflwyno cynlluniau busnes, gyda’r nod o leihau nifer y gweithrediadau sy'n methu â bodloni gofynion y rhaglen a chyflwyno gofynion ar gyfer adrodd mewn ffordd gadarnach am werthuso a’r canlyniadau disgwyliedig.

7.3 Bydd costau cyflog yn rhan o'r holl weithgarwch isod er mwyn gwella'r gallu i gyflawni amcanion cyffredinol blaenoriaeth CT. Bydd hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer Swyddogion Gweithrediadau gan fod profiad y rhaglenni presennol a

blaenorol yn awgrymu pwysigrwydd buddsoddi mewn ysgogiad rhagweithiol i helpu i ddatblygu gweithrediad. Nod y Rhaglen yw cefnogi camau gweithredu i helaethu cydweithrediad rhwng cyrff y Rhaglen, cryfhau system reoli gadarn, cryfhau'r gefnogaeth i ymgeiswyr gweithredu a buddiolwyr a gwella amlygrwydd a chyfalafu canlyniadau'r Rhaglen.

### *Creu a dethol gweithrediadau*

- Cyllid ar gyfer Swyddogion Gweithrediadau yng Nghymru ac Iwerddon ar gyfer meithrin ceisiadau gweithredu, adeiladu capasiti a hwyluso a chydlynu partneriaethau a gweithrediadau trawsffiniol;
- Cyllid a chefnogaeth i fuddiolwyr i hwyluso a chydlynu partneriaethau a gweithrediadau trawsffiniol drwy'r cynllun WIN;
- Cymorth ar gyfer paratoi ceisiadau gweithredu, cyngor ynglŷn â chymhwyster ac adeiladu'r ceisiadau;
- Cynnal asesiadau ansawdd ar geisiadau ar gyfer gweithrediadau.

### *Cymorth i fuddiolwyr*

- Darparu offer a chanllawiau (llawlyfrau, cynorthwyo buddiolwyr gweithrediadau i roi eu gweithrediad ar waith);
- Darparu cymorth a chyngor i bartneriaid arweiniol ynghylch rhoi eu gweithrediad ar waith;
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a digwyddiadau cysylltiedig â gweithrediadau ac ymweld â gweithrediadau i edrych ar gynnydd y gweithrediad, cynnyrch a chanlyniadau yn ogystal â rhwystrau i weithredu.

### *Archwilio a rheolaeth*

- Sefydlu a chynnal trefniadau archwilio effeithiol;
- Monitro afreoleidd-dra ac adrodd;
- Gwell cymorth i frwydro yn erbyn twyll a llygredd;

- Darparu cyngor ac arweiniad cyson i bartneriaid.

### *Monitro, gwerthuso, rheoli ac adrodd*

- Datblygu a chynnal system gyfrifiadurol ar gyfer rheoli, monitro, archwilio a chadw rheolaeth ar raglenni;
- Casglu ac adrodd data ynghylch dangosyddion a cherrig milltir a chynnydd y Rhaglen o ran cyflawni ei hamcanion;
- Darparu canllawiau a chymorth er mwyn sicrhau rheolaeth ddigonol ar gamau gweithredu'r rhaglen ar bob lefel (partneriaid, rheolyddion, cyrff Aelod-wladwriaethau sy'n gyfrifol am gymeradwyo rheolydd y lefel gyntaf) e.e. drwy seminarau, dogfennau canllaw a chyngor;
- Gwariant sy'n gysylltiedig ag archwiliadau a gwiriadau a wneir yn y fan a'r lle ar weithrediadau;
- Adrodd yn rheolaidd i'r Comisiwn Ewropeaidd ar hynt y Rhaglen.

### *Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd*

- Lledaenu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a chyfathrebu gan gynnwys canllawiau i bartneriaid a noddwyr, seminarau a gweithdai a digwyddiadau rhwydweithio;
- Lledaenu a rhoi cyhoeddusrwydd i effeithiau a chanlyniadau'r Rhaglen;
- Datblygu a chynnal a chadw tudalennau Iwerddon Cymru ar wefan WEFO.

### *Rheoli'r Rhaglen*

- Defnyddir CT, lle y bydd cymhwysedd yn caniatáu, i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol drwy gefnogi dyletswyddau Pwyllgor Monitro'r Rhaglen (PMRh). Mae hyn yn cynnwys trefnu, paratoi a hwyluso cyfarfodydd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen.

### *Ymchwil a Gwerthuso*

- Ymchwil ar lefel y Rhaglen a gwerthuso;

- Darparu cyngor ac arweiniad ynghylch gwerthusiad i sefydliadau sy’n noddi;
- Digwyddiadau lledaenu ymchwil a gwerthuso a gweithdai; a
- Rheoli ymarferion ymchwil a gwerthuso.

## Dangosyddion Cynnyrch

| **Dangosydd** | **Uned Fesur** | **Gwerth Targed (2023)** | **Ffynhonnell y data** |
|---|---|---|---|
| Nifer y digwyddiadau hyfforddi a gynhaliwyd | Digwyddiadau hyfforddi | 4 | Monitro’r Rhaglen |
| Nifer ymweliadau’r Gyd-ysgrifenyddiaeth â’r gweithrediad a chyfranogi mewn digwyddiadau gweithrediad | Ymweliadau â’r gweithrediad | 300 | Monitro’r Rhaglen |
| Nifer cyfarfodydd PMRh | Cyfarfodydd PMRh | 14 | Monitro’r Rhaglen |
| Nifer y datganiadau i’r wasg | Datganiadau i’r wasg | 10 | Monitro’r Rhaglen |
| Nifer y gweithwyr (yn cyfateb i lawn amser) y mae eu cyflogau yn cael eu cydgyllido gan CT | Nifer yn cyfateb i lawn amser | | Monitro’r Rhaglen |

# 8 DULL DATBLYGU TIRIOGAETHOL INTEGREDIG

## Disgrifiad o'r dull datblygu tiriogaethol integredig

8.1 Mae Rhaglen Iwerddon Cymru yn dilyn dull integredig o ddatblygu tiriogaethol drwy adeiladu ar asedau tiriogaethol ardal y Rhaglen, a Môr Iwerddon yn arbennig. Golyga hyn y dylai’r gweithrediadau a gymeradwyir gan y Rhaglen ymdrin â heriau tiriogaethol, cysylltu â pholisïau datblygu tiriogaethol perthnasol (e.e. strategaethau arbenigo craff, rhaglenni ERDF rhanbarthol) a dilyn dull traws-sector.

8.2 Bydd lleihau gwahaniaethau tiriogaethol, a thrwy wneud hynny sicrhau lefel uwch o gydlyniant tiriogaethol yn ardal y Rhaglen, yn un o nodau allweddol y rhaglen, yn enwedig yn Echel Blaenoriaeth 3.

8.3 Mae'r Rhaglen yn cyfrannu at Strategaeth Ewrop 2020 ar gyfer twf deallus, cynaliadwy a chynhwysol. Er mwyn datgloi cyfleoedd twf newydd mae’r Rhaglen yn cefnogi Arbenigo Craff fel offeryn i wneud defnydd o asedau tiriogaethol lle mae rhanbarthau yn fwyaf arbenigol. Mae yr un mor bwysig adeiladu cysylltiadau â rhanbarthau eraill a meithrin dull mentora/dysgu rhyngddynt. Er enghraifft, ar gyfer Echel Blaenoriaeth 1, bydd angen i weithrediadau gynnwys partneriaid o wahanol sectorau â phrofiadau gwahanol o arloesi. Yn y modd hwn, mae twf yn cyfrannu at gynyddu cydlyniant tiriogaethol yn ardal y Rhaglen.

## Aliniad â Strategaeth Basn Môr yr Iwerydd

8.4 Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Strategaeth Forwrol yn Ardal yr Iwerydd ar Mai 13, 2013 (COM(2013) 279 terfynol). Mae'n seiliedig ar Strategaeth yr Iwerydd y Comisiwn Ewropeaidd (COM (2011) 782 terfynol).

8.5 Mae'r cynllun gweithredu yn nodi pedair blaenoriaeth:

1. Hybu entrepreneuriaeth ac arloesi;
2. Amddiffyn, sicrhau a datblygu potensial amgylchedd morol ac arfordirol yr Iwerydd;
3. Gwella hygyrchedd a chysylltedd;

4. Creu model cymdeithasol gynhwysol a chynaliadwy o ddatblygu rhanbarthol.

8.6 Mae Strategaeth yr Iwerydd a'r Cynllun Gweithredu yn canolbwyntio ar Ardal yr Iwerydd yn ei chyfanrwydd, y mae’r rhan fwyaf ohoni y tu allan i gwmpas ardal y Rhaglen. Serch hynny, ar gyfer Rhaglen Iwerddon Cymru, mae aliniadau wedi eu gwneud â'r blaenoriaethau sydd fwyaf perthnasol i’r anghenion a’r heriau a nodwyd ym Môr Iwerddon ac ardal ehangach y Rhaglen. O gofio ei ffocws ar Fôr Iwerddon, mae’r Rhaglen yn ategu’r Cynllun Gweithredu mewn nifer o feysydd a bydd yn cyfrannu, yn rhannol, at Flaenoriaethau 1, 2 a 3. Mae’r Rhaglen yn alinio gyda’r Amcanion Penodol canlynol yn y Cynllun Gweithredu:

- Rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau addysg uwch, cwmnïau a chanolfannau ymchwil (yn ategu AP1, o Raglen Iwerddon Cymru);
- Hyrwyddo addasu ac amrywio gweithgareddau economaidd drwy hybu potensial ardal yr Iwerydd (ategu AP3 o Raglen Iwerddon Cymru);
- Archwilio a diogelu dyfroedd morol a pharthau arfordirol (ategu AP2 ac AP3 o Raglen Iwerddon Cymru);
- Rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau morol (ategu AP3 o Raglen Iwerddon Cymru);
- Ymelwa ar botensial ynni adnewyddadwy amgylchedd morol ac arfordirol ardal yr Iwerydd (ategu AP1 o Raglen Iwerddon Cymru);
- Meithrin gwell gwybodaeth am heriau cymdeithasol yn ardal yr Iwerydd (ategu AP1 ac AP3 o Raglen Iwerddon Cymru);
- Gwarchod a hybu treftadaeth ddiwylliannol yr Iwerydd (ategu AP3 o Raglen Iwerddon Cymru).

8.7 Caiff aliniad â Strategaeth Ardal yr Iwerydd ei asesu – lle bo'n berthnasol – fel rhan o'r meini prawf dethol. Bydd y Rhaglen hefyd yn ceisio adeiladu aliniadau â Rhaglen Drawswladol Ardal yr Iwerydd.

# 9 GWEITHREDU DARPARIAETHAU AR GYFER Y RHAGLEN GYDWEITHREDU

## Awdurdodau a chyrff perthnasol[6]

| Awdurdod/corff | Enw'r awdurdod/corff a'r adran neu'r uned | Pennaeth yr awdurdod/corff (safle/swydd) |
|---|---|---|
| Awdurdod Rheoli | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) | Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Awdurdod Ardystio | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) | Pennaeth yr Awdurdod Ardystio |
| Awdurdod Archwilio | Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (Llywodraeth Cymru) | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd (Llywodraeth Cymru) |

### *Cyrff sy'n cyflawni tasgau rheoli ac archwilio*

| Awdurdod/corff | Enw'r awdurdod/corff a'r adran neu'r uned | Pennaeth yr awdurdod/corff (safle/swydd) |
|---|---|---|
| Corff neu gyrff a ddynodwyd i gyflawni tasgau rheoli | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) | Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Corff neu gyrff a ddynodwyd i fod yn gyfrifol am gyflawni tasgau archwilio | Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (Llywodraeth Cymru ) | Pennaeth Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd |

[6] Yn unol ag erthygl 7 (11) o Reoliad ETC, nid yw'r wybodaeth ar adnabod yr awdurdod rheoli, yr awdurdod ardystio, lle y bo'n briodol, a'r awdurdod archwilio yn dibynnu ar benderfyniad y Comisiwn i gymeradwyo'r rhaglen gydweithredu, ond mae'n aros yn gyfrifoldeb yr Aelod-wladwriaethau sy'n cymryd rhan.

.

## Y Gyd-ysgrifenyddiaeth

9.1 Sefydlir cyd-ysgrifenyddiaeth (C-y) bwrpasol o dan reolaeth yr Awdurdod Rheoli (ARh) i gyflawni'r Rhaglen. Bydd yr ARh, ar ôl ymgynghori â'r awdurdodau perthnasol yn Iwerddon, yn sefydlu Cyd-ysgrifenyddiaeth fydd wedi'i lleoli yn Llywodraeth Cymru. Bydd Aelodau Gwyddelig y Gyd-ysgrifenyddiaeth yn parhau i fod wedi eu lleoli yn y Cynulliad Rhanbarthol Deheuol yn Waterford, Iwerddon. Ceir manylion cyswllt llawn ar http://wefo.wales.gov.uk/?lang=en

9.2 Maes o law bydd y manylion hyn ar gael hefyd ar dudalennau gwe pwrpasol WEFO ar gyfer Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020 neu wefan bwrpasol ar wahân ar gyfer y Rhaglen. Caiff cyfansoddiad y Gyd-ysgrifenyddiaeth a gweithdrefn recriwtio staff eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau perthnasol yn Iwerddon yn dilyn cynnig gan yr Awdurdod Rheoli. Er mwyn cadw arbenigedd staff, disgwylir y bydd tîm y Gyd-ysgrifenyddiaeth ar gyfer Rhaglen 2014-2020 yn debyg i un Cyd-ysgrifenyddiaeth Dechnegol Rhaglen 2007-2013.

9.3 Bydd y Gyd-ysgrifenyddiaeth yn cynorthwyo'r Pwyllgor Monitro, yr Awdurdod Rheoli, a lle bo'n briodol, yr Awdurdod Archwilio i gyflawni eu dyletswyddau. Caiff y Gyd-ysgrifenyddiaeth ei hariannu o gyllideb y cymorth technegol.

## Trefniadau rheoli

9.4 Cyfrifoldeb yr Awdurdod Rheoli fydd rheoli'r Rhaglen o dan oruchwyliaeth Pwyllgor Monitro'r Rhaglen (PMRh). Caiff cyfrifoldebau'r Awdurdod Rheoli mewn perthynas ag Iwerddon eu gosod i lawr mewn Memorandwm Dealltwriaeth rhwng yr Awdurdod Rheoli a'r Adran Gwariant Cyhoeddus a Diwygio a'r Cynulliad Rhanbarthol Deheuol.

9.5 Sefydlir strwythur rheoli ar y cyd i reoli, cydlynu a monitro gweithrediad y Rhaglen. Bydd y strwythur yn cynnwys:

- Awdurdod rheoli (ARh);
- Awdurdod Ardystio (AArd);
- Awdurdod Archwilio (AArch);
- Cyd-ysgrifenyddiaeth (Cyd-y);
- Pwyllgor Monitro'r Rhaglen (PMRh).

9.6 Nid yw'r Rhaglen yn dewis yr opsiwn i swyddogaethau'r Awdurdod Rheoli gynnwys cyflawni swyddogaethau'r Awdurdod Ardystio. Bydd yr Awdurdod Ardystio yn seiliedig o fewn WEFO, ond bydd swyddogaethau'r Awdurdod Ardystio ar wahân ac yn annibynnol o'r swyddogaethau hynny sydd i gael eu cyflawni gan yr Awdurdod Rheoli.

## Rôl a thasgau'r Awdurdod Rheoli

9.7 Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yw'r Awdurdod Rheoli ar gyfer Rhaglen 2014-2020. Mae'r Awdurdod Rheoli, gyda chymorth y Gyd-ysgrifenyddiaeth, yn gyfrifol am reoli'r Rhaglen yn unol ag egwyddor rheolaeth ariannol gadarn fel y'i disgrifir yn erthygl 125 y Rheoliad (UE) 1303/2013 [CPR] ac erthygl 23 y Rheoliad (UE) 1299/2013 [ETC]. Mae'n sicrhau bod y cyrff rhaglen gwahanol yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd.

9.8 Mae hyn yn cynnwys y tasgau a'r cyfrifoldebau canlynol:

- Cywirdeb a chyfreithlondeb taliadau;
- Mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen;
- Cysylltu rhwng yr awdurdodau sy'n gweithredu'r Rhaglen a phartïon eraill â diddordeb lle bo angen;
- Cysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd a gweithredu'r holl argymhellion a dderbyniwyd ar gyfer diwygio gweithdrefnau rheoli a monitro;
- Goruchwylio'r Gyd-ysgrifenyddiaeth a rheoli'r gyllideb cymorth technegol;
- Paratoi ar gyfer pwyllgorau a rhoi cyngor i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen ynghylch tueddiadau strategol.

9.9 Mae'r Awdurdod Rheoli yn cael ei gynorthwyo gan y Gyd-ysgrifenyddiaeth wrth weithredu ei gyfrifoldebau a thasgau cysylltiedig. Maent yn cydweithio'n agos i sicrhau bod ei ddyletswyddau yn cael eu cyflawni.

9.10 Mae gan yr Awdurdod Rheoli hanes sylweddol o gyflawni'r swyddogaethau hyn ar gyfer rhaglenni eraill a gyllidwyd ag arian Ewrop.

## Rôl a thasgau'r Gyd-ysgrifenyddiaeth

9.11 Cytunir ar fanylion tasgau a chyfrifoldebau y Gyd-ysgrifenyddiaeth ar gyfer gweinyddu'r Rhaglen o ddydd i ddydd yng nghyfarfod cyntaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglen, pryd y cyflwynir rhaglen waith y Gyd-ysgrifenyddiaeth. Mae'r Gyd-ysgrifenyddiaeth yn cynorthwyo Pwyllgor Monitro'r Rhaglen, yr Awdurdod Rheoli a, lle'n briodol, yr Awdurdod Archwilio i gyflawni eu gwahanol swyddogaethau. Bydd cyfrifoldebau allweddol yn cynnwys:

- Cynorthwyo'r Awdurdod Rheoli i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei rheoli a'i gweithredu'n effeithlon ac yn gywir;
- Paratoi a darparu'r wybodaeth y mae ar yr Awdurdod Rheoli a'r Awdurdod Ardystio ei hangen i gyflawni eu cyfrifoldebau;
- Gwasanaethu Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ac unrhyw grwpiau Rhaglen ychwanegol, gan gynnwys paratoi papurau a drafftio cofnodion cyfarfodydd;
- Gweithredu a dilyn yr holl benderfyniadau a wneir gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglen ac unrhyw grwpiau Rhaglen ychwanegol;
- Creu ffurflenni cais a chanllawiau ar gyfer ymgeiswyr;
- Cymorth i ymgeiswyr a chysylltu â'r Swyddogion Gweithredu yn y broses o ddatblygu a rhedeg gweithrediad;
- Asesu ceisiadau yn weinyddol i weld a ydynt yn cydymffurfio â gofynion yr UE a gofynion cenedlaethol ac â'r meini prawf a gytunwyd ar gyfer y Rhaglen;
- Hysbysu ynghylch canlyniad ceisiadau am arian grant, gan gynnwys anfon cynigion grantiau i ymgeiswyr llwyddiannus;
- Cynorthwyo'r Awdurdod Rheoli i brosesu taliadau i fuddiolwyr;
- Monitro cynnydd gweithrediadau drwy gyflwyno adroddiadau gan bartneriaid gweithrediad a gwybodaeth reoli ar y system TG (PPIMs);
- Cydymffurfio â rhwymedigaethau ynglŷn â gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, gan gynnwys gweithredu strategaeth Gwybodaeth a Chyfathrebu;
- Rheoli Cyllideb Cymorth Technegol.

9.12 Disgrifir y defnydd o Gymorth Technegol ar gyfer darparu adnoddau i'r Gyd-ysgrifenyddiaeth yn Echel Blaenoriaeth 4 – blaenoriaeth Cymorth Technegol. Efallai y bydd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yn gosod tasgau a chyfrifoldebau pellach.

## Rôl a thasgau'r Awdurdod Ardystio

9.13 Mae erthygl 126 o'r Darpariaethau Cyffredin (Rheoliad (UE) Rhif 1303 / 2013) yn gosod allan y swyddogaethau sydd i gael eu cyflawni gan yr Awdurdod Ardystio. Yn benodol, bydd yr Awdurdod Ardystio yn gyfrifol am lunio a chyflwyno ceisiadau am dâl i'r Comisiwn, ac ardystio eu bod yn deillio o systemau cyfrifo dibynadwy, eu bod yn seiliedig ar ddogfennau ategol gwiriadwy ac wedi bod yn destun gwiriadau gan yr Awdurdod Rheoli.

9.14 Bydd hefyd yn gyfrifol am lunio'r cyfrifon blynyddol, ardystio cyflawnder, cywirdeb a dilysrwydd y cyfrifon, cynnal a chadw mewn ffurf gyfrifiadurol gofnodion cyfrifo am y gwariant a ddatganwyd i'r Comisiwn a'r cyfraniad cyhoeddus cyfatebol a dalwyd i fuddiolwyr a chadw cyfrif o'r symiau adferadwy a'r symiau a dynnwyd yn ôl yn dilyn canslo'r cyfan neu ran o'r cyfraniad ar gyfer gweithrediad.

9.15 Mae gan yr Awdurdod Ardystio arfaethedig hanes sylweddol o gyflawni'r swyddogaethau hyn ar gyfer Rhaglenni eraill a gyllidir ag arian Ewropeaidd.

## Rôl a thasgau'r Awdurdod Archwilio

9.16 Bydd yr Awdurdod Archwilio yn sicrhau y cynhelir archwiliadau i'r system reoli i weld ei bod yn gweithio'n briodol ac i sampl briodol o weithrediadau yn unol ag Erthygl 127 o Reoliad (UE) Rhif 1303/2013 [CPR]. Yn ôl Erthygl 21 o Reoliad (UE) Rhif 1299/2013 [ETC], bydd yr Awdurdod Archwilio wedi ei leoli yn aelod-wladwriaeth yr Awdurdod Rheoli. Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd Llywodraeth Cymru fydd yr Awdurdod Archwilio a bydd yn cyflawni'r swyddogaethau y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 127 o Reoliad (UE) Rhif 1303/2013 [CPR].

9.17 Cynorthwyir yr Awdurdod Archwilio gan Grŵp o Archwilwyr (GoA) fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ddwy Aelod-wladwriaeth sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen. Tîm Archwilio Ewropeaidd Llywodraeth Cymru fydd yr aelod o Gymru a Chadeirydd y Grŵp o Archwilwyr. Cânt eu cynorthwyo gan Awdurdod Archwilio

yr ERDF yn yr Adran ar gyfer Gwariant Cyhoeddus a Diwygio, fydd yn aelod o'r Grŵp o Archwilwyr yn Iwerddon. Bydd pob Aelod-wladwriaeth yn gyfrifol am gynnal archwiliadau yn ei thiriogaeth. Caiff yr Adroddiad Rheoli Blynyddol ei ddrafftio gan yr Awdurdod Archwilio gyda chymorth a mewnbwn gan Awdurdod Archwilio yr ERDF yn Iwerddon.

9.18 Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gyfrifol yn benodol am:

- Sicrhau y cynhelir archwiliadau i wirio bod system reoli’r rhaglen weithredu yn gweithio’n effeithiol;
- Sicrhau y cynhelir archwiliadau i weithrediadau ar sail sampl briodol er mwyn cadarnhau'r gwariant a ddatganwyd;
- Cyflwyno adroddiad rheoli blynyddol i'r Comisiwn fydd yn nodi canfyddiadau’r archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y 12 mis blaenorol.

9.19 Sefydlir y grŵp o archwilwyr o fewn tri mis i'r penderfyniad i gymeradwyo'r Rhaglen Gydweithredu. Caiff ei gadeirio gan yr Awdurdod Archwilio. Bydd y grŵp o archwilwyr yn llunio ac yn cymeradwyo ei reolau trefniadaeth ei hun yn ystod ei gyfarfod cyntaf. Ymhellach, bydd yr Awdurdod Archwilio yn paratoi strategaeth archwilio ar gyfer cyflawni archwiliadau. Bydd y strategaeth archwilio yn nodi'r fethodoleg archwilio, y dull samplu ar gyfer archwiliadau i weithrediadau a'r modd y cynllunnir archwiliadau.

9.20 Yn olaf, bydd yr Awdurdod Archwilio yn gyfrifol am ffurfio barn archwilio yn unol â'r ail is-baragraff o erthygl 59 (5) o'r Rheoliad Ariannol, ac adroddiad rheoli yn cwmpasu prif ganfyddiadau'r archwiliadau a gynhaliwyd.

9.21 Mae gan yr Awdurdod Archwilio hanes sylweddol o gyflawni'r swyddogaethau hyn ar gyfer rhaglenni eraill a gyllidir ag arian Ewropeaidd.

## Rôl a thasgau Pwyllgor Monitro’r Rhaglen

9.22 Yn unol ag Erthygl 47 o Reoliad (UE) 1303/2013 [CPR], o fewn tri mis i ddyddiad yr hysbysiad am y penderfyniad i fabwysiadu Rhaglen, bydd yr Aelod-wladwriaethau, mewn cytundeb â'r Awdurdod Rheoli, yn sefydlu Pwyllgor i fonitro gweithrediad y Rhaglen. Bydd Pwyllgor Monitro’r Rhaglen (PMRh) yn llunio ac yn mabwysiadu ei reolau trefniadaeth yn unfrydol yn ystod y cyfarfod cyntaf.

9.23 Bydd Pwyllgor Monitro’r Rhaglen yn cynnwys cynrychiolwyr o’r sector Cyhoeddus, SAU, y sector Preifat a’r Trydydd sector yn Iwerddon ac yng Nghymru hefyd. Caiff Pwyllgor Monitro’r Rhaglen ei gadeirio ar y cyd gan gynrychiolwyr o Gymru ac Iwerddon.

9.24 Caiff y grwpiau canlynol hefyd gymryd rhan mewn swydd ymgynghorol:

- Caiff rhanddeiliaid perthnasol gymryd rhan drwy wahoddiad;
- Cynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd;
- Yr Awdurdod Rheoli, y Gyd-ysgrifenyddiaeth a, lle bo angen, yr Awdurdod Archwilio.

9.25 Bydd Pwyllgor Monitro’r Rhaglen, yn unol ag Erthygl 49 o Reoliad (UE) 1303/2013 [CPR] yn adolygu gweithrediad y Rhaglen a'r cynnydd tuag at gyflawni ei hamcanion, ac, yn fwy penodol, y swyddogaethau a restrir yn erthygl 110 o Reoliad (UE) Rhif 1303/2013 [CPR]. Bydd yn dewis neu'n sefydlu pwyllgor (llywio), fydd yn gweithredu o dan ei gyfrifoldeb am ddewis gweithrediadau sy'n cael eu hariannu gan y Rhaglen, yn unol ag erthygl 12 o Reoliad (UE) 1299/2013 [ETC].

9.26 Bydd Pwyllgor Monitro’r Rhaglen yn archwilio ac yn cymeradwyo'r fethodoleg a'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer dewis gweithrediadau, yr adroddiadau gweithredu blynyddol a therfynol, y cynllun gwerthuso ar gyfer y rhaglen weithredu, y strategaeth gyfathrebu ar gyfer y rhaglen weithredu ac unrhyw gynnig gan yr Awdurdod Rheoli ar gyfer unrhyw welliant i'r rhaglen weithredu. Bydd y darpariaethau manwl yn cael eu rhestru yn rheolau trefniadaeth Pwyllgor Monitro’r Rhaglen. Bydd Pwyllgor Monitro’r Rhaglen yn dilysu’r disgrifiad o’r system reoli fydd yn sail ar gyfer dynodi awdurdodau yn unol ag Erthygl 124 (2) o Reoliad (UE) 1303/2013 [CPR]. Bydd cynrychiolwyr Pwyllgor Monitro’r Rhaglen yn sicrhau ar y lefel genedlaethol bod yr holl bartneriaid perthnasol yn cymryd rhan mewn paratoi, gweithredu, monitro a gwerthuso'r Rhaglen, fel y cyfeirir yn Erthygl 5 (2) o Reoliad (UE) Rhif 1303/2013 [CPR]. Hefyd, caiff wneud sylwadau i'r Awdurdod Rheoli ynglŷn â gweithredu a gwerthuso'r Rhaglen gan gynnwys camau gweithredu sy'n gysylltiedig â lleihau'r baich gweinyddol ar fuddiolwyr.

9.27 Gyda golwg ar dasgau Pwyllgor Monitro’r Rhaglen, rhaid sicrhau bod penderfyniadau Pwyllgor Monitro’r Rhaglen yn ddiduedd a rhaid i ddiddordeb personol a/neu sefydliadol aelodau unigol y pwyllgor hwn beidio â dylanwadu ar y penderfyniadau hynny. Rhaid i unrhyw aelodau sydd â buddiannau’n gwrthdaro, o ran unrhyw destun sydd i gael ei ystyried gan Bwyllgor Monitro’r

Rhaglen, ddatgan diddordeb o'r fath i'r cyfarfod a pheidio â chymryd rhan yn y penderfyniad. Bydd Pwyllgor Monitro’r Rhaglen yn nodi manylion y weithdrefn hon yn ei reolau trefniadaeth.

## Trefnu asesu a dethol gweithrediadau a datrys cwynion

9.28 Bwriad y Rhaglen yw gweithredu galwad agored am weithrediadau. Drwy gydol cyfnod y Rhaglen, caiff lefel yr ymrwymiad a’r gwariant ym mhob Echel Blaenoriaeth ei monitro’n ofalus. Ar rai adegau o fewn cyfnod y Rhaglen efallai y penderfynir cau Echel Blaenoriaeth dros dro os bydd digon o weithrediadau wedi cael eu cymeradwyo i gyrraedd ymrwymiad llawn. Yn yr achosion hyn, gellid gosod gweithrediadau ar restr wrth gefn i ganiatáu ailddyrannu cyllid a ddychwelir i’r rhaglen o weithrediadau fydd wedi eu cwblhau.

9.29 Caiff y dogfennau cysylltiedig â’r broses ymgeisio eu cyhoeddi ar dudalennau pwrpasol Iwerddon Cymru gwefan WEFO. Byddant yn cynnwys y cylch gorchwyl, y rheolau cyllido a chymhwyster a’r weithdrefn ddethol.

9.30 Bydd yr holl geisiadau ar gael i aelodau Pwyllgor Monitro’r Rhaglen neu i aelodau pwyllgor/au dynodedig (llywio) a sefydlir gan Bwyllgor Monitro’r Rhaglen er mwyn penderfynu. Caiff y ceisiadau eu hasesu ar nifer o gamau er mwyn defnyddio amser ac adnoddau’r ymgeiswyr a’r Gyd-ysgrifenyddiaeth yn fwy effeithiol. Mae’r broses a fwriedir fel a ganlyn:

### Cam 1

- I ddechrau, gofynnir i ymgeiswyr amlinellu eu cynnig mewn Tabl Rhesymeg Gweithrediad (OLT), fydd wedi ei gynllunio’n benodol i’w gwneud yn bosibl i’r gyd-ysgrifenyddiaeth asesu’r cynnig yn ddiduedd;
- Bydd Grŵp Technegol yn craffu ar ganlyniad asesiad y Gyd-ysgrifenyddiaeth. Bydd y grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o’r Awdurdod Rheoli, Llywodraeth Iwerddon a’r Cynulliad Rhanbarthol Deheuol;
- Gellir ychwanegu cyngor arbenigol at aelodaeth y Grŵp Technegol yn ôl yr angen. Efallai y caiff rhestr ei llunio o arbenigwyr traws-sector gan y Gyd-ysgrifenyddiaeth. Rhoddir yr holl benderfyniadau i Bwyllgor Monitro’r Rhaglen ac unrhyw bwyllgor/au dynodedig er gwybodaeth.

### Cam 2

- Gwahoddir ymgeiswyr llwyddiannus i gyflwyno cais ffurfiol cam cyntaf (cynllun busnes) wedi ei gyfyngu i dri maen prawf craidd – Ffit Strategol (yn cynnwys meini prawf cydweithredu), Cyflawni, a Chyllid a Chydymffurfio;
- Caiff hyn ei asesu'n ddiduedd gan y Gyd-ysgrifenyddiaeth. Cyflwynir y cais (cynllun busnes) ochr yn ochr ag adroddiad asesu ac argymhelliad gan y Gyd-ysgrifenyddiaeth i'r pwyllgor/au dynodedig er mwyn iddynt benderfynu. Cyflwynir yr holl benderfyniadau i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen er gwybodaeth.

### Cam 3

- Gofynnir i'r ceisiadau hynny a ddewiswyd gan y pwyllgor/au dynodedig gyflwyno Achos Busnes manwl, yn mynd i'r afael â Dangosyddion a Deilliannau; Gwerth am Arian; Rheoli Prosiect; Themâu Trawsbynciol; Addasrwydd Buddsoddi; a Chynaladwyedd Tymor Hir;
- Eto cyflwynir hwn i'r pwyllgor/au dynodedig am eu penderfyniad terfynol ynghyd ag adroddiad penderfyniad cyllido cynhwysfawr ac argymhelliad gan y Gyd-ysgrifenyddiaeth. Yn dilyn y penderfyniad hwn, bydd yr Awdurdod Rheoli yn paratoi llythyr dyrannu arian grant rhwng yr Awdurdod Rheoli a buddiolwr arweiniol y gweithrediad a gafodd ei gymeradwyo. Cyflwynir yr holl benderfyniadau i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen er gwybodaeth.

9.31 Hysbysir buddiolwyr arweiniol gweithrediadau a wrthodir yn ysgrifenedig am y rhesymau pam na chafodd eu cais ei gymeradwyo. Caiff unrhyw gwestiynau ynghylch yr asesiadau eu harchwilio a'u hateb gan yr Awdurdod Rheoli a'r Gyd-ysgrifenyddiaeth. Yn unol â'r system sydd yn ei lle ar gyfer ymdrin â chwynion yn rhaglenni rhanbarthol Cymru, bydd Rhaglen Iwerddon Cymru yn ymdrin â chwynion drwy gyfrwng polisi a gweithdrefn gwyno Llywodraeth Cymru. Ceir mwy o wybodaeth yn http://wales.gov.uk/contact_us/makeacomplaint/?lang=en

9.32 Bydd modd i'r holl weithrediadau a wrthodwyd wneud cais eto i'r Rhaglen unwaith y byddant wedi mynd i'r afael â'r materion a achosodd iddynt gael eu gwrthod.

## Llofnod y ddogfen yn egluro amodau’r gefnogaeth

9.33 Rhaid i’r Awdurdod Rheoli baratoi a rhoi llythyr dyfarnu arian grant i gadarnhau penderfyniad Pwyllgor Monitro’r Rhaglen; bydd yn egluro’r amodau’r cyllid yn ogystal â chyfrifoldebau ariannol a chyfreithiol buddiolwyr y gweithrediad. Bydd y llythyr dyfarnu arian grant hefyd yn datgan yn glir y bydd y partner arweiniol a phartneriaid y gweithrediad yn darparu ac yn sicrhau bod yr holl ddogfennau ar gael i unrhyw gorff awdurdodedig yn yr UE, yr Aelod-wladwriaeth neu i’r Awdurdod Archwilio, yr Awdurdod Ardystio, yr Awdurdod Rheoli neu’r Gyd-ysgrifenyddiaeth i ddibenion rheoli ac archwilio yn unol ag Erthygl 140 o’r Darpariaethau Cyffredin (Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013). Bydd y llythyr dyfarnu arian grant hefyd yn cyfeirio at y systemau rheoli a sefydlwyd gan Raglen Iwerddon Cymru.

## Trefniadau ar gyfer dilysiadau gan reolwyr a threfniadau rheoli cysylltiedig

9.34 Timau Arolygu a Dilysu Rheolaeth a Gweithrediad Lefel Gyntaf fydd yn gyfrifol am gynnal dilysiadau a rheolaeth ariannol ar gyfer y Rhaglen, gyda staff wedi eu lleoli yng Nghymru ac yn Iwerddon. Caiff y tîm yn Iwerddon ei reoli drwy drefniant tebyg i’r un a ddilynwyd ar gyfer rheolwyr lefel gyntaf yng Nghymru ar gyfer Rhaglen 2007-2013. Bydd Timau Arolygu a Dilysu Rheolaeth a Gweithrediad Lefel Gyntaf yng Nghymru yn cyfeirio gweithgarwch o ddydd i ddydd, yn adolygu gwaith a wnaed ac yn rhoi cyngor ac arweiniad, tra bydd iechyd a lles staff yn gyfrifoldeb aelod addas o staff y Cynulliad Rhanbarthol Deheuol yn Iwerddon

9.35 Mae prosesau Dilysiadau Rheolwyr ar gyfer yr holl raglenni a reolir gan WEFO yn parhau dan ystyriaeth. Fodd bynnag, disgwylir y bydd ffocws cryfach ar Reolaeth y Lefel Gyntaf a gyflawnir cyn tynnu cyllid i lawr oddi wrth y Comisiwn.

9.36 Bydd yr holl hawliadau a gyflwynir gan Weithrediadau i gael eu talu yn destun gwiriadau rheoli lefel gyntaf. Wedyn caiff sampl o gynnwys pob hawliad ei wirio. Bydd maint y sampl yn seiliedig ar risg ac yn cynnwys sampl ar hap er mwyn sicrhau bod tebygolrwydd y caiff yr holl eitemau eu gwirio. Cynhelir yr adolygiadau hyn fel gwiriadau desg neu ‘ar y safle’ a chânt eu cwblhau gan staff yng Nghymru ac yn Iwerddon hefyd.

9.37 Cynhelir adolygiadau 'yn y fan a'r lle' fel digwyddiadau ar wahân a byddant yn canolbwyntio ar y ffordd y bydd y gweithrediad yn cael ei redeg mewn gwirionedd, y cyhoeddusrwydd a dilysrwydd y wybodaeth a gyflwynwyd ar gyfer rheoli'r lefel gyntaf. Cyflawnir y rhain ar sampl o weithrediadau. Eto, dewisir y rhain ar sail y raddfa risg a grybwyllwyd yn gynharach. Rhagdybir y bydd gweithrediadau yn destun mwy nag un adolygiad 'yn y fan a'r lle' dros oes y gweithrediad. Bydd y staff fydd yn cynnal yr adolygiadau 'yn y fan a'r lle' yr un unigolion ag a ddefnyddiwyd ar gyfer ymweliadau rheoli'r lefel gyntaf.

9.38 Ar gyfer y ddau fath o adolygiad a gynhelir, defnyddir rhaglenni gwaith a dogfennaeth safonol gan y staff yn Iwerddon ac yng Nghymru.

9.39 Disgwylir y caiff canlyniadau'r adolygiadau a'r dystiolaeth i'w cefnogi eu cadw ym modiwl 'Adolygiadau' o fewn System TG Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau (PPIMS) WEFO.

## Dosrannu rhwymedigaethau mewn achos o gywiriadau ariannol

9.40 Mae Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwariant Cyhoeddus a Diwygio (DPER) a'r Cynulliad Rhanbarthol Deheuol yn cytuno mai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), fel yr Awdurdod Rheoli ac Ardystio ar gyfer y Rhaglen, fydd yn cymryd y cyfrifoldeb am reolaeth ariannol adnoddau'r Rhaglen, a ddaw ar gael drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) ac arian cyfatebol yr Aelod-wladwriaethau dan gyllideb Cymorth Technegol.

9.41 Bydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru fel yr Awdurdod Rheoli ac Ardystio ar gyfer y Rhaglen yn sicrhau rhannu a defnyddio'r adnoddau y cyfeiriwyd atynt uchod yn unol â safonau derbyniol o reoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian I gyd-fynd â rheoliadau a gweithdrefnau perthnasol, Ewropeaidd ac eraill.

9.42 Rhaid i hyn gynnwys :

- Cyflwyno hawliadau talu i'r Comisiwn Ewropeaidd am ERDF;
- Sicrhau bod mecanweithiau rheoli ariannol yn effeithiol;
- Monitro cyflawniad y Rhaglen a'r gweithrediad i sicrhau bod y targedau gweithgarwch, y cynnyrch a'r effeithiau yn cael eu cyflawni fel y disgrifiwyd yn y Rhaglen;

- Gwneud taliadau i fuddiolwyr cyn gynted ag y bo modd yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglen ac yn unol â rheoliadau a gweithdrefnau ariannol Ewropeaidd ac eraill.

9.43 Heb ragfarn i gyfrifoldeb yr Aelod-wladwriaethau am ganfod a chywiro afreolaidd-dra ac am adennill symiau a dalwyd heb fod angen, rhaid i'r Awdurdod Rheoli sicrhau bod unrhyw swm a dalwyd o ganlyniad i afreolaidd-dra yn cael ei adennill oddi wrth y buddiolwr arweiniol. Rhaid i'r buddiolwyr ad-dalu i'r buddiolwr arweiniol unrhyw symiau a dalwyd yn ormodol yn unol â'r cytundeb sy'n bodoli rhyngddynt. Os bydd y buddiolwr arweiniol yn methu â sicrhau ad-daliad gan fuddiolwr, rhaid i'r buddiolwr arweiniol ad-dalu i'r Awdurdod Rheoli y swm a dalwyd i'r buddiolwr.

9.44 Gyda golwg ar y gyllideb Cymorth Technegol, rhaid i Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwariant Cyhoeddus a Diwygio oddef rhwymedigaeth ariannol am unrhyw golledion fydd yn codi mewn perthynas â'u tiriogaethau gwahanol. Ar gyfer y costau cyffredin yn y gyllideb Cymorth Technegol, bydd yr Aelod-wladwriaethau yn goddef y rhwymedigaeth ariannol ar y cyd.

9.45 Rhaid i'r Adran Gwariant Cyhoeddus a Diwygio gydweithredu'n llawn gyda'r Cynulliad Rhanbarthol Deheuol (SRA) a darparu unrhyw gymorth angenrheidiol i alluogi'r Cynulliad Rhanbarthol Deheuol i gyflawni'r dyletswyddau hyn. Rhaid i SRA a DPER wneud ymdrechion rhesymol i sicrhau bod grant a dalwyd i fuddiolwyr o fewn eu hawdurdodaeth yn cael ei adennill. Bydd WEFO yn hysbysu SRA a DPER cyn gynted ag y bydd yn gwybod bod sefyllfaoedd o'r fath wedi eu darganfod.

## Defnyddio'r Ewro

9.46 Yn unol ag Erthygl 28 o Reoliad (EU) Rhif 1299/2013 [ETC], ac fel rhanddirymiad o Erthygl 133 o Reoliad (EU) Rhif 1303/2013 [CPR], caiff gwariant mewn arian ar wahân i'r ewro ei drosi i'r ewro gan y buddiolwyr yn y mis pan wariwyd yr arian, gan ddefnyddio cyfraddau cyfnewid cyfrifo misol y Comisiwn. Caiff y trosiad ei ddilysu gan y rheolwr yn yr Aelod-wladwriaeth neu drydedd gwlad lle mae'r buddiolwr wedi ei leoli.

## Cynnwys Partneriaid

9.47 Mae Rhaglen Iwerddon Cymru yn ganlyniad proses ailadroddol sy'n seiliedig ar ddeialog drawsffiniol eang. Cyfrannodd partneriaid o awdurdodau

cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn ogystal â chyrff anllywodraethol at ei datblygiad. A derbyn pwysigrwydd ymgysylltiad parhaus drwy gydol oes y Rhaglen, bydd y dull partneriaeth hwn yn parhau wrth weithredu, monitro a gwerthuso'r Rhaglen. Bydd Swyddogion Gweithrediadau yn chwarae rhan bwysig fel sianel gwybodaeth rhwng y Gyd-ysgrifenyddiaeth a'r buddiolwyr. Daw rhai aelodau o'r grŵp Teirochrog yn Gyd-gadeiryddion Pwyllgor Monitro'r Rhaglen. Y Pwyllgor hwn (neu Bwyllgor Llywio a ddynodwyd ganddo) sy'n gyfrifol am ddethol gweithrediadau, monitro canlyniadau a pherfformiad y gweithrediadau a pherfformiad y Rhaglen ei hun. Fodd bynnag, ni fydd y Cadeirydd yn pleidleisio ond pan na cheir consensws. Mae'r Rhaglen yn dibynnu ar adborth parhaus a mewnbwn gan ei buddiolwyr a'i rhanddeiliaid allanol.

9.48 Mae Rhaglen Iwerddon Cymru wedi cofleidio egwyddorion partneriaeth yn llawn wrth weithredu rhaglenni blaenorol. Bydd hyn yn parhau i fod yn wir yn 2014-2020. Y Pwyllgor Monitro Rhaglen, sydd i gael ei sefydlu ar gyfer y Rhaglen, fydd yn gyfrifol am gymeradwyo meini prawf dethol gweithrediadau'r Rhaglen, edrych ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni amcanion cytunedig y Rhaglen, a chytuno ar y Cynllun Gwerthuso ac unrhyw addasiadau i'r rhaglenni.

9.49 Bydd aelodaeth o Bwyllgor Monitro'r Rhaglen yn seiliedig ar egwyddorion partneriaeth a bydd yn cymryd i ystyriaeth lawn yr arferion gorau hynny a eglurwyd yn y Cod Ymddygiad Ewropeaidd ar Bartneriaeth. Gwahoddir enwebiadau a thynnir aelodau ar draws y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector (yn cynnwys partneriaid economaidd a chymdeithasol, awdurdodau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; a chynrychiolwyr cymdeithas sifil gan gynnwys cynrychiolaeth yn ymdrin â'r amgylchedd a chydraddoldeb). Bydd awdurdodau'r Rhaglen yn cytuno ar aelodaeth gytbwys o Iwerddon a Chymru a bydd yr aelodaeth yn cynnwys cydbwysedd bras rhwng y rhywiau. Caiff y cylch gorchwyl ei baratoi a'i gytuno yn y cyfarfod cychwynnol. Bydd hyn yn cynnwys arweiniad manwl ynghylch y modd yr eir i'r afael â gwrthdaro buddiannau.

# 10 CYDGYSYLLTIAD Â RHAGLENNI ERAILL

10.1 Mae strategaeth Rhaglen Iwerddon Cymru yn cyfateb i raddau helaeth i raglenni Ewropeaidd eraill yn ardal Rhaglen Iwerddon Cymru. Mae’r rhaglenni canlynol yn benodol yn berthnasol.

10.2 Mae’r Rhaglen ERDF ranbarthol Ddeheuol a Dwyreiniol yn Iwerddon yn mynd i’r afael â thema arloesedd ac yn canolbwyntio ar godi lefel masnacheiddio ymchwil Sefydliadau Addysg Uwch. Mae hyn yn berthnasol i Amcan Penodol 1 Rhaglen Iwerddon Cymru. Mae Rhaglen Iwerddon Cymru yn canolbwyntio ar ymchwil a gweithgareddau datblygu technolegol yn agos at y farchnad (er enghraifft, prawf o gysyniad), a manteisio ar gynnyrch, prosesau a gwasanaethau newydd yn y farchnad (AP1). Dylai’r heriau yr ymdrinnir â hwy o ran arloesi fod yn gysylltiedig naill ai â strategaethau arbenigo craff neu ag arloesi eco a chymdeithasol.

10.3 Mae’r rhaglen ERDF ranbarthol yng Nghymru hefyd yn mynd i’r afael â thema arloesedd, gan ganolbwyntio ar gynyddu arloesi mewn busnesau bach a chanolig a chynyddu trosiad prosesau ymchwil ac arloesi yn gynnyrch, prosesau a gwasanaethau masnachol yn llwyddiannus. Bydd Rhaglen Iwerddon Cymru hefyd yn ceisio sicrhau aliniad rhwng canolbwynt eco-arloesi’r Rhaglen a chanolbwynt carbon isel Rhaglen ERDF Cymru.

10.4 Nid yw rhaglenni ERDF Cymru nac Iwerddon yn mynd i’r afael â threftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Fodd bynnag, fel y gellir gweld isod, mae nifer o raglenni eraill, sy’n cael eu hariannu gan yr UE, yn mynd i’r afael â’r themâu hyn ac yn cynnig dewisiadau ariannu gwahanol. Bydd rhaid i unrhyw weithrediadau fydd yn dod ymlaen dan Echel Blaenoriaeth 3 Rhaglen Iwerddon Cymru ddangos yn gryf y gwerth ychwanegol o gynnal y gweithgaredd hwn ar sail trawsffiniol yn hytrach nag ar sail cenedlaethol.

10.5 Mae gan Gronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) y nod tymor hir o sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau morol. Dan erthygl 63 o’r rheoliadau perthnasol mae’r Undeb Ewropeaidd yn datgan ei chefnogaeth i sefydlu strategaethau datblygu lleol dan arweiniad y gymuned, gyda’r nod o gyflawni nifer o amcanion, gan gynnwys gwella a manteisio ar asedau amgylcheddol ardaloedd y pysgodfeydd ac acwafeithrin a hybu lles cymdeithasol a threftadaeth ddiwylliannol mewn ardaloedd pysgodfeydd ac acwafeithrin, gan

gynnwys treftadaeth ddiwylliannol pysgodfeydd, acwafeithrin a morwrol[7]. Byddai gweithgarwch o'r fath yn ategu'r hyn a gynigir dan Echel Blaenoriaeth 3 Rhaglen Iwerddon Cymru.

10.6 Mae rhaglenni datblygu gwledig yn ysgogi datblygiad economaidd-gymdeithasol ardaloedd gwledig yn Iwerddon ac yng Nghymru hefyd, ac felly'n hyrwyddo cynhwysiant a chryfhau cydlyniad tiriogaethol. Mae Rhaglen Iwerddon Cymru a'r rhaglenni gwledig yn ategu ei gilydd o ran arloesi (AP1) mewn ardaloedd gwledig, a datblygiad cynaliadwy cymunedau gwledig (AP3). Mae gweithrediadau trawsffiniol yn medru creu synergeddau newydd rhwng y gweithrediadau a'r rhanddeiliaid gwahanol ym mannau gwledig ardal y Rhaglen.

10.7 Mae lle i gyfatebolrwydd gyda rhaglen Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) yng Nghymru i hybu arloesi a'r sylfaen wybodaeth, mesurau ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd mewn ardaloedd gwledig ac yn enwedig drwy fuddsoddiadau dan feysydd egni ac amgylchedd yr Her Fawr. Efallai y bydd buddsoddiadau Iwerddon/Cymru, fydd yn cefnogi arloesedd, ynni adnewyddadwy ac ymaddasu i'r newid hinsawdd, yn ategu gweithgarwch a ariennir dan yr EMFF, yn dibynnu ar yr arbenigeddau a gefnogir.

10.8 Bydd Rhaglen Datblygu Gwledig Iwerddon yn mynd i'r afael ag amrediad eang o Flaenoriaethau Datblygu Gwledig a Meysydd Ffocws fel yr eglurwyd yn y rheoliad perthnasol. O fewn hyn, mae lle i gyfatebolrwydd drwy gefnogaeth i arferion arloesol, mesurau newid hinsawdd a chynnal a chadw'r dreftadaeth naturiol a diwylliannol.

10.9 Mae cydlyniad cryf hefyd gyda Horizon 2020. O berthnasedd neilltuol i raglenni 2014-20, mae pwyslais y Comisiwn ar ddefnyddio Cronfeydd Strwythurol i baratoi'r tir ar gyfer cymryd rhan yng ngweithrediadau Horizon 2020. Efallai y bydd cyfleoedd i Raglen Iwerddon Cymru ymgymryd â gweithrediadau peilot y gellid eu huwchraddio o dan Horizon 2020, a derbyn cwmpas ariannol a daearyddol helaethach y Rhaglen.

---

[7] Yr Undeb Ewropeaidd (2014) *RHEOLIAD (UE) RHIF 508/2014 Y SENEDD EWROPEAIDD A'R CYNGOR o 15 Mai 2014 ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd a diddymu Rheoliadau'r Cyngor (CE) Rhif 2328/2003, (CE) Rhif 861/2006, (CE) Rhif 1198/2006 a (CE) Rhif 791/2007 a Rheoliad (UE) Rhif 1255/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor* [ar-lein] ar gael yn: http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32014R0508 & o = cy [cyrchwyd 30[ain] Mehefin 2014] Tudalen 38

- AP 1 – Yr ail golofn o fewn Horizon 2020 yw cryfhau arloesi diwydiannol, gan ganolbwyntio ar arloesi gan fusnesau bychain a chanolig, mwy o fuddsoddiad mewn ymchwil ac arloesi a chreu gwaith. Mae hyn yn cysylltu â'r ffocws ar gynyddu'r capasiti i arloesi – yn enwedig mewn mentrau bach a chanolig – yn AP1;
- AP 3 – Mae'r drydedd golofn o fewn Horizon 2020 yn canolbwyntio ar Ewrop mewn byd sy'n newid – cymdeithasau cynhwysol, arloesol ac adfyfyriol. Yn ôl y rhaglen waith, dylai Ewrop wella dealltwriaeth o'i threftadaeth ddiwylliannol a'i hunaniaethau er mwyn cryfhau cydlyniant a chydsafiad ac annog gweledigaethau a defnydd modern o'i gorffennol.[8] Mae hyn yn cysylltu â'r ffocws yn AP3 ar ddefnyddio'r dreftadaeth a'r adnoddau diwylliannol a naturiol ar gyfer twf economaidd.

10.10 Mae'r Undeb Arloesi yn un o'r saith rhaglen flaenaf o dan Strategaeth Ewrop 2020. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod yr UE yn gwella ei pherfformiad yn sylweddol mewn arloesi masnachol. Mae hyn yn cysylltu ag AP1 a'i ffocws ar gynyddu potensial masnacheiddio arloesi.

10.11 Mae rhaglen COSME yn cryfhau cystadleurwydd a chynaladwyedd mentrau'r UE. Mae Rhaglen Iwerddon Cymru yn dangos nifer o elfennau cyfatebol i'r rhaglen hon gan mai mentrau bychain a chanolig a mentrau cymdeithasol yw'r prif grŵp targed dan AP1 ym mlaenoriaeth Arloesi. Caiff mentrau eu cefnogi hefyd dan AP3 a byddant yn chwarae rhan sylweddol o ran sicrhau'r canlyniad a'r cynnyrch a ddymunir dan yr Amcan Penodol hwn.

10.12 Mae gan raglen LIFE is-raglen, sy'n mynd i'r afael ag ymaddasu i newid hinsawdd (gyda phwyslais ar gynyddu gwytnwch yn wyneb y newid yn yr hinsawdd). Ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd yw ffocws allweddol AP2 ac fel y cyfryw mae'n rhan sylweddol o'r rhaglen. Mae gan raglen LIFE hefyd is-raglen ar gyfer yr amgylchedd sy'n ganolbwynt AP3. Bydd y Rhaglen yn ystyried y posibilrwydd o gyllido gweithrediadau integredig lle bo'n berthnasol, h.y. cyllido gweithgareddau drwy'r Rhaglen hon a LIFE. Mae hyn yn cynnig cyfle pellach i archwilio cyfatebolrwydd. Os bydd y Rhaglen yn digwydd penderfynu

[8] Y Comisiwn Ewropeaidd (2014) *Horizon 2020: Work Programme 2014-2015 – 13. Europe in a changing world – inclusive, innovative and reflective societies* [online] Ar gael yn: http://ec.europa.eu/research/participants/data/ref/h2020/wp/2014_2015/main/h2020-wp1415-societies_en.pdf [Cyrchwyd ar y 10fed o Orffennaf 2014] tud. 13-14

mabwysiadu'r dull hwn drwy gyllid integredig, sicrheir na fydd yr un eitem o wariant yn cael ei chyllido ddwywaith.

10.13 Yn yr Agenda Ewropeaidd ar Ddiwylliant mae'r Cyngor yn cefnogi hybu diwylliant fel catalydd ar gyfer creadigrwydd o fewn fframwaith strategaeth Lisbon ar gyfer twf, cyflogaeth, arloesi a chystadleurwydd[9]. Mae trydydd llinyn hyn[10] yn neilltuol o berthnasol i ganolbwynt AP3 ar ddefnyddio treftadaeth ddiwylliannol a naturiol ar gyfer twf economaidd ac yn arbennig ei ffocws ar ddefnyddio mentrau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol i gyflawni hyn.

10.14 Mae rhwydwaith Menter Ewrop yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi busnesau bach a chanolig gyda gwasanaethau partneriaeth trawsffiniol (gan gynnwys partneriaeth technoleg) a gwasanaethau arloesi eraill, yn arbennig gwasanaethau rheoli ar gyfer rhaglen Horizon 2020. Darperir y gwasanaethau hyn i fusnesau bach a chanolig ym mhob sector. Yn ogystal, mae gan y rhwydwaith 17 o grwpiau sector sy'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, ddiwydiannau morwrol, yr amgylchedd a bwyd-amaeth. Bydd y Rhaglen yn cymryd synergeddau â'r rhwydwaith hwn i ystyriaeth.

10.15 Mae rhaglenni Interreg eraill yn dangos tebygrwydd thematig i raglen Iwerddon Cymru. Mae rhai o'r rhaglenni hyn yn gorgyffwrdd ag ardal Rhaglen Iwerddon Cymru (er enghraifft, Rhaglen Ryngranbarthol Ewrop INTERREG, Rhaglen Drawswladol Gogledd-orllewin Ewrop a Rhaglen Drawswladol Ardal yr Iwerydd). Mae'r rhaglenni hyn yn cynnig cyfle i uwchraddio gweithrediadau llwyddiannus i lefel drawswladol neu ryngranbarthol neu i ledaenu canlyniadau gweithrediadau i ardal ddaearyddol ehangach.

- AP1 – Mae rhaglenni Interreg Ewrop, Gogledd-orllewin Ewrop ac Ardal yr Iwerydd i gyd yn cynnwys ffocws ar gynyddu capasiti arloesi yn eu gwahanol ardaloedd;
- AP3 – Mae Interreg Ewrop ac Ardal yr Iwerydd yn mynegi'r bwriad i gefnogi ymyriadau sy'n ymwneud â gwarchod, diogelu, hybu a datblygu treftadaeth naturiol a diwylliannol (Blaenoriaeth Fuddsoddi o dan Amcan

[9] Ibid., tud.4

[10] Meithrin amgylchedd ffafriol ar gyfer datblygu diwydiannau diwylliannol a chreadigol, yn arbennig ar gyfer busnesau bach a chanolig, drwy wneud gwell defnydd o raglenni a mentrau presennol a ffurfio partneriaethau â sectorau eraill.

Thematig 6). Amcan Penodol 4.1 Interreg Ewrop yw gwella gweithredu polisïau a rhaglenni datblygu rhanbarthol, yn enwedig buddsoddiad ar gyfer twf a swyddi a, lle bo'n berthnasol, rhaglenni ETC, ym maes diogelu a datblygu treftadaeth naturiol a diwylliannol.

10.16 Mae Rhaglen Iwerddon Cymru hefyd yn dangos aliniad cryf gyda rhaglen Ardal yr Iwerydd, yn enwedig a derbyn y ffocws morol sy’n cael ei rannu gan y ddwy raglen.

10.17 Mae swyddogion sydd â rhan yn natblygiad Rhaglen Iwerddon Cymru hefyd wedi cymryd rhan yn natblygiad rhaglenni Gogledd-orllewin Ewrop, Ardal yr Iwerydd ac INTERREG Ewrop. Cafodd aliniadau rhwng y rhaglenni eu hystyried wrth ddatblygu Rhaglen Iwerddon Cymru lle roedd yn briodol.

10.18 Bydd rhaglen INTERACT yn chwarae rôl mewn cydgysylltu gwahanol raglenni a gweithrediadau INTERREG.

10.19 Mae rhaglen URBACT yn canolbwyntio ar drosglwyddo a lledaenu arferion da o ran datblygiad trefol cynaliadwy, gan gynnwys cysylltiadau rhwng y dref a’r wlad. Mae Rhaglen Iwerddon Cymru yn ategu rhaglen URBACT drwy gefnogi’r defnydd a wneir o arloesi cymdeithasol (AP1).

10.20 Gall Rhaglen ESPON gyflenwi gwybodaeth diriogaethol ddefnyddiol fel sail i ddatblygu a dethol gweithrediadau yn Rhaglen Iwerddon Cymru. Gall ESPON fod yn ddefnyddiol hefyd i edrych ar ganlyniadau gweithrediadau Iwerddon Cymru mewn cyfuniad gyda data tiriogaethol perthnasol. Mae hyn yn gofyn am ychydig o gydgysylltu/cydweithredu rhwng y ddwy raglen.

10.21 Dengys y rhestr uchod y gellir, mewn nifer o feysydd polisi, ddefnyddio mwy nag un rhaglen UE i gyflawni amcanion strategaeth Ewrop 2020. Mae Rhaglen Iwerddon Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cyfatebolrwydd rhwng y rhaglenni Ewropeaidd gwahanol hyn ar lefel Ewropeaidd, genedlaethol a rhanbarthol yn ystod cyfnodau datblygu a gweithredu’r Rhaglen. Bydd gwahanol strwythurau a gweithdrefnau yn ateb yr angen i gydgysylltu’r cyfatebolrwydd hwn:

- Mae gan y ddwy Aelod-wladwriaeth eu strwythurau eu hunain ar gyfer cydgysylltu’r gwahanol raglenni, fel y disgrifiwyd yn eu cytundebau partneriaeth gwahanol;
- O fewn WEFO, yn nhermau rheoli meysydd posibl o orgyffwrdd, caiff Gweithgor ei sefydlu a chynhelir cyfarfodydd ar y cyd gyda buddiolwyr i

gynllunio portffolios buddsoddi a rheoli cyflawni; osgoi dyblygu arian yn anfwriadol, gan nodi'r ffynhonnell fwyaf priodol o arian ac adeiladu portffolios ar draws y cronfeydd. Bydd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o ERDF, ESF, EAFRD, Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop ac ETC yng Nghymru, yn ogystal â chynrychiolydd o uned Horizon 2020. Caiff y dull hwn ei fonitro gan Fwrdd Rheoli Cronfeydd ESI;

- Fel rhan o ddull Llywodraeth Cymru i gynorthwyo i integreiddio a chynyddu cyfleoedd ar gyfer cronfeydd ESI a'i gwneud yn haws i gyrff wneud cais a dod i wybod mwy am gronfeydd yr UE yng Nghymru, mae cyfleusterau gwefan Llywodraeth Cymru yn cael eu datblygu fel bod cyfeirio effeithiol yn digwydd ar draws cronfeydd yr UE, a lle y caiff darpar fuddiolwyr eu cyfeirio at dimau thema neu gyllid penodol i gael cefnogaeth a chyngor manwl;

- Bydd casgliad o ddogfennau arweiniad, gan gynnwys Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd (FfBE), ar gael gan Lywodraeth Cymru. Pwrpas y rhain yw hybu synergedd rhwng Cronfeydd ESI a strategaeth ddatblygu economaidd Llywodraeth Cymru drwy nodi cyfleoedd thematig a rhanbarthol i ganolbwyntio buddsoddiad arnynt, ymyriadau strategol a gynigir gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill ac ymyriadau cyfatebol ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Cynlluniwyd y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd yn bennaf gyda rhaglenni rhanbarthol Cymru mewn golwg. Caiff datblygiadau o'r FfBE eu monitro. Fodd bynnag, er y gall fod peth darllen ar draws i'r FfBE, ni fyddai'n ffactor o bwys ar gyfer dethol gweithrediadau trawsffiniol;

- Yn unol â Rheoliad 1303/2013 yr UE, mae Iwerddon wedi gosod mecanweithiau addas yn eu lle fydd yn sicrhau cydgysylltiad rhwng y cronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewropeaidd ac offerynnau eraill yr UE a rhai cenedlaethol. Ar y lefel genedlaethol, sefydlwyd Pwyllgor Cenedlaethol i Gydgysylltu'r Cronfeydd (NCCF) er mwyn mynd i'r afael â materion cydweithredu, materion cyfatebolrwydd a sybsidiaredd rhwng rhaglenni ERDF/ESF, EMFF, EAFRD ac ETC. Rôl y Pwyllgor yw sefydlu systemau priodol, lle bo angen, i ymdrin â'r materion hyn yn y Rhaglenni Gweithredu, ac ymdrin ag unrhyw faterion gweithredu a fydd efallai yn cyfiawnhau gosod terfynau neu gyfleoedd ar gyfer cyfatebolrwydd rhwng y cronfeydd ESI amrywiol.

10.22 Fel aelod o'r Pwyllgor Cenedlaethol i Gydgysylltu'r Cronfeydd (NCCF) ac fel Awdurdod Rheoli Rhaglen Weithredol Ranbarthol, mae'r SRA mewn sefyllfa

fanteisiol i sicrhau cydgysylltiad a chyfatebolrwydd ar draws yr holl gronfeydd ESI yn Iwerddon a Rhaglen Iwerddon Cymru. Cynrychiolir yr SRA hefyd ar bob un o Bwyllgorau Monitro cronfa ESI yn Iwerddon.

10.23 Bydd pob Aelod-wladwriaeth yn cymryd cyfrifoldeb am ledaenu gwybodaeth ynglŷn â'r cronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewropeaidd eraill i'r adrannau perthnasol o fewn Llywodraethau Cymru ac Iwerddon a sicrwydd cyfatebolrwydd o fewn eu sefydliadau.

10.24 Mae gorgyffwrdd yn bodoli hefyd gyda rhaglenni ETC eraill. Lle bo'n briodol, caiff cynigion gweithrediadau o fewn Rhaglen Iwerddon Cymru eu rhannu gan y Gyd-ysgrifenyddiaeth gyda Phwyntiau Cyswllt cenedlaethol rhaglenni Ewropeaidd eraill yn yr Aelod-wladwriaethau gwahanol. Pan fydd gweithrediad yn gorgyffwrdd gyda rhaglen Ewropeaidd arall bydd trafodaethau’n digwydd o fewn yr Aelod-wladwriaethau.

10.25 Y bwriad yw i WEFO barhau â'i rôl fel Gohebydd Cenedlaethol y DU ar gyfer Rhaglen Ardal yr Iwerydd ar ran Llywodraeth y DU. Y bwriad yw i WEFO fod yn aelod o Bwyllgor Monitro Rhaglen Ardal yr Iwerydd a gallu cydgysylltu'r elfennau cyfatebol.

10.26 Mae gan WEFO a’r SRA ran mewn cyflawni rhaglen drawswladol Gogledd-orllewin Ewrop a'r bwriad yw i’r ddau gorff fod yn aelodau o Bwyllgor Monitro’r Rhaglen. Fel y cyfryw byddant yn medru cydgysylltu’r elfennau cyfatebol gyda’r Rhaglen hon. Wrth ymgeisio am gyllid Rhaglen Iwerddon Cymru, mae’n rhaid i weithrediadau ddangos sut y maent yn cyfrannu at neu’n ategu rhaglenni eraill yr UE. Sefydlir maen prawf penodol ar gyfer hyn.

10.27 Bydd yr Awdurdod Rheoli a'r Gyd-ysgrifenyddiaeth yn ymroi i gydweithredu drwy offerynnau UE eraill, er enghraifft, drwy fynychu digwyddiadau ei gilydd, trefnu digwyddiadau ar y cyd neu hwyluso cyfnewid gweithrediadau rhwng buddiolwyr y rhaglenni gwahanol. Os canfyddir cyfle posibl i gydweithredu llwyddiannus, gellir dod â buddiolwyr perthnasol at ei gilydd i feddwl am glystyru.

# 11 BAICH GWEINYDDOL I FUDDIOLWYR

11.1 Cynhaliwyd astudiaeth gwmpasu gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i ddysgu oddi wrth brofiadau sefydliadau yng Nghymru sydd wedi cymryd rhan mewn rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC) gan gynnwys Rhaglen Iwerddon Cymru. Cynhaliwyd ymarfer 'gwersi a ddysgwyd' hefyd gan aelodau o'r Gyd-ysgrifenyddiaeth yn Iwerddon ac yng Nghymru, yn seiliedig ar eu profiadau a'r adborth gan fuddiolwyr. Codwyd rhai pryderon ynghylch y cymhlethdodau sy'n rhan o'r broses hawlio sy'n arwain at oedi taliadau. Roedd pryderon penodol ynglŷn â'r dyblygu wrth ddarparu gwybodaeth ar gyfer adroddiadau. O ran cynllun WIN – sy'n darparu cymorth ariannol i sefydliadau cymwys yn erbyn y costau teithio a chynhaliaeth a achosir gan sefydliadau sy'n ymgeisio, wrth deithio i gwrdd â neu i edrych am ddarpar bartneriaid, – roedd rhai sefydliadau wedi dewis peidio â hawlio ad-daliad oherwydd cymhlethdodau'r broses hawlio. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater penodol hwn, yn rhaglen 2014-2020 bydd cynllun WIN yn trosi i dalu lwmp swm i bob gweithrediad yn hytrach nag ad-dalu'r costau. Câi'r broses archwilio hefyd ei gweld fel un oedd yn creu baich gweinyddol annerbyniol.

11.2 Mae model rôl y Swyddog Datblygu wedi gweithio'n dda yn rhaglen 2007-2013 a chaiff y rôl hon ei hehangu ar gyfer rhaglen 2014-2020 i ddarparu mwy fyth o gymorth. Bydd rôl newydd y Swyddog Gweithrediadau yn darparu gwasanaeth crud i'r bedd, yn cynnwys un swyddog fel pwynt cyswllt blaenaf ar gyfer buddiolwyr drwy gydol y cyfnod ymgeisio, datblygu ac ar ôl cymeradwyo.

11.3 Bydd y Rhaglen yn ymdrin ag adborth gan fuddiolwyr ar gyfer Rhaglenni 2014-2020 drwy gynyddu cyfleoedd integreiddio a chysoni lle bynnag y bo'n bosibl i gynorthwyo cyflawni a lleihau ymhellach y baich i'r buddiolwyr. Bydd hyn yn cynnwys proses ymgeisio ac asesu symlach fydd yn cynnwys cyfres o byrth a phwyntiau penderfynu ynglŷn â chymhwyster gweithrediadau. Bydd hyn yn golygu craffu mwy manwl ar weithrediadau yn gynharach yn eu datblygiad. Bydd symudiad hefyd tuag at alwad agored yn hytrach na phennu rowndiau i fuddiolwyr fedru ymgeisio ynddynt.

11.4 Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cymryd drosodd fel yr Awdurdod Rheoli oddi wrth y Cynulliad Rhanbarthol Deheuol yn Iwerddon. Mae hyn yn golygu y caiff y rhaglen ei threfnu i gyd-fynd â gweithdrefnau a system TG WEFO. Rhan bwysig o hynny fydd cyflwyno system TG PPIMS. Mae hyn wedi arwain at gysoni prosesau ar draws cronfeydd strwythurol yng Nghymru ac

mae wedi galluogi buddiolwyr yn rhaglenni rhanbarthol Cymru i fewnbynnu data gweithrediad yn uniongyrchol drwy borth ar y we. Mae hyn wedi arwain at brosesau cyffredin, gwell cyfnewid dogfennaeth ynghyd ag enillion effeithlonrwydd a phrosesau cyflymach a thaliadau i fuddiolwyr. Mae system PPIMS hefyd wedi cael ei chydnabod gan y Comisiwn fel model ar gyfer Aelod-wladwriaethau eraill. Rhagwelir y bydd Rhaglen Iwerddon Cymru yn elwa o welliannau tebyg yn y cyfnod 2014-2020. Bu gwelliannau pellach i PPIMS ar gyfer y cyfnod 2014-2020 ac ni fydd angen bellach i weithrediadau wneud dim ond rhoi mewnbwn i restr trafodion fydd yn awtomatig yn poblogi'r hawliad ar system PPIMS. Mae hyn yn golygu na fydd angen i fuddiolwyr mwyach gysoni rhestri trafodion â'u hawliadau.

11.5 Caiff rheolau cymhwyster lefel rhaglen ESI eu harmoneiddio a bydd y rhain ynghyd â chanllawiau ategol cyffredin yn eu lle ar gyfer sefydliadau ledled ardal y Rhaglen. Bydd hyn yn symleiddiad sylweddol i fuddiolwyr yng Nghymru ac Iwerddon ac mae'n adeiladu ar ddarpariaethau cymhwyster cyffredin y Comisiwn yn y Rheoliad Darpariaethau Cyffredin ar gyfer materion megis gwytnwch, cynhyrchu refeniw a dewisiadau cost symlach. Ar ôl i'r rheolau cymhwyster gael eu harmoneiddio cânt eu cytuno a'u cyhoeddi a byddant yn hawdd eu gweld drwy wefan y rhaglen yn 2015. Mae hyn yn wahanol i'r rhaglen bresennol lle'r oedd rheolau cymhwyster ar wahân yn Iwerddon ac yng Nghymru.

11.6 At hynny, mae'r Rhaglen yn bwriadu annog y defnydd o ddewisiadau ad-dalu cost symlach (lwmp swm, cyfraddau unffurf,) drwy beri bod dewisiadau deddfwriaethol ar gael i ddarpar ymgeiswyr, cyhoeddi canllawiau manwl a rhedeg gweithdai hyfforddi gyda chynrychiolwyr o sectorau allweddol i ddeall ac ymdrin â'r rhwystrau ar ffordd manteisio. Disgwylir y bydd costau cyfradd unffurf, o ran ad-dalu costau anuniongyrchol, o ddiddordeb arbennig i'r buddiolwyr.

# 12 RHESTR O ACRONYMAU CYFFREDIN

| | |
|---|---|
| AArch | Awdurdod Archwilio |
| AArd | Awdurdod Ardystio |
| AB | Addysg Bellach |
| AP | Amcan Penodol |
| ARh | Awdurdod Rheoli |
| ATh | Amcan Thematig |
| AU | Addysg Uwch |
| BBaChau | Busnesau Bach a Chanolig |
| BF | Blaenoriaeth Fuddsoddi |
| CCT | Themâu Trawsbynciol |
| CT | Cymorth Technegol |
| DCSC | Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus |
| DPER | Adran Gwariant Cyhoeddus a Diwygio Llywodraeth Iwerddon |
| EAFRD | Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig |
| EB | Echel Blaenoriaeth |
| EIA | Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb |
| ERDF | Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| ESIF | Cronfa Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd |
| ETC | Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd |
| GDP | Cynnyrch Domestig Crynswth |
| GoA | Grŵp Archwilwyr |
| FTE | Cyfwerth ag Amser Llawn |
| FfBE | Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd |
| NGO | Sefydliad Anllywodraethol |
| IMF | Cronfa Ariannol Ryngwladol |
| IW | Iwerddon Cymru |
| JS | Cyd-ysgrifenyddiaeth |
| NCCF | Pwyllgor Cenedlaethol ar gyfer Cydgysylltu'r Cronfeydd |
| OLT | Tabl Rhesymeg Gweithrediad |
| PMRh | Pwyllgor Monitro Rhaglen |
| PPIMS | System Rheoli Gwybodaeth Prosiectau’r Rhaglen |
| SAC | Strategaeth arbenigo craff |
| SAU | Sefydliad Addysg Uwch |
| SRA | Cynulliad Rhanbarthol Deheuol |
| SWOT | cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau |

| | |
|---|---|
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| WIN | Rhwydwaith Cymru Iwerddon |
| Y a D | Ymchwil a Datblygiad |

**Am fwy o wybodaeth:**

**www.gov.cymru**

**@wefocymru / @wefowales / @irelandwales**

**Desg Gymorth: 0845 010 3355**

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

© Hawlfraint y Goron 2015